

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

# CANLLAW I RHIENI

i wasanaethau addysg yn Wrecsam

2025-2026



  
wrexham  
COUNTY BOROUGH COUNCIL  
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL  
wrecsam

## Cynnwys

Llythyr gan Brif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar	5
<b>Cyflwyniad</b>	<b>6</b>
Prosbectws Ysgolion	6
Cydraddoldeb, Hawliau Dynol ac Amrywiaeth	6
<b>Derbyn plentyn i ysgol</b>	<b>7</b>
Amserlen derbyniadau	7
Amserlen Derbyniadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu	8
Sut i wneud cais	9
Derbyniadau i ysgolion y tu allan i Awdurdod Lleol Wrecsam	9
Ceisiadau hwyr	11
Y broses o gynnig lle mewn ysgol	11
<b>Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig</b>	<b>12</b>
<b>Polisi derbyniadau i ysgolion</b>	<b>14</b>
Cyfnodau derbyn	15
Meini prawf gordanysgrifio	17
Hysbysu rhieni	19
Rhestrau aros	19
Diffiniadau	20
Derbyn disgyblion o'r tu allan i Wrecsam	23
<b>Newid Ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol</b>	<b>23</b>
<b>Y weithdrefn apelio</b>	<b>24</b>
<b>Gofal am blentyn</b>	<b>25</b>
<b>Plant sipsiwn a theithwyr</b>	<b>25</b>
<b>Polisi iaith gymraeg ar gyfer pob ysgol</b>	<b>25</b>
<b>Anghenion dysgu ychwanegol / darpariaeth dysgu ychwanegol</b>	<b>26</b>
<b>Gwasanaeth saesneg fel iaith ychwanegol</b>	<b>28</b>

<b>Presenoldeb yn yr ysgol, prydlondeb ac absenoldeb</b>	<b>28</b>
<b>Cludiant Ysgol</b>	<b>30</b>
Gwneud cais am gludiant ysgol	30
<b>Manteision addysg Gymraeg</b>	<b>31</b>
Ydych chi wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn?	31
Hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg a Throchi	32
Trochi yn y Gymraeg ar gyfer addysg uwchradd	33
<b>Cymorth a gwybodaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion a theuluoedd</b>	<b>35</b>
Prydau ysgol a Lluniaeth	35
Grant Gwisg Ysgol / Grant Hanfodion Ysgol	35
Polisi Codi Tâl a Gostyngiadau	35
Dyddiadau'r Tymor	36
Dyddiadau Gadael Ysgol	36
Arholiadau a Phrofion Cyhoeddus	36
Gweithdrefnau Cwyno	36
Gwybodaeth Gyffredinol	37
<b>Polisiau Derbyn Ysgol Enwadol 2025</b>	<b>38</b>
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol A Gynortwyir Y Santes Anne	39
Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair	45
<b>Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru:</b>	
<b>Polisi Derbyn Cyffredinol 2025</b>	<b>53</b>
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd	63
Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Bronington	65
Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras	67
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru y Mwynglawdd	69
Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Chad	71
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo	73
Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn	75

Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon	77
Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Paul	79
<b>Uwchradd Sefydledig: Ysgol Maelor, Penley</b>	<b>81</b>
Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph, Wrecsam	84
Hysbysiad Preifatrwydd	94
Rhestr Ysgolion in Wrecsam	95
Cysylltiadau Gwybodaeth a Chyngor	128
Cyfeiriadau a rhifau ffôn awdurdodau cyfagos	129
Deddfwriaeth, canllawiau a pholisïau	130

## Llythyr gan Brif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar

Annwyl Riant/Warcheidwad

Yn unol â'r gyfraith, mae dyletswydd ar bob Awdurdod Lleol i roi cyfle i rieni/gwarcheidwaid fynegi ffafriaeth wrth ddewis ysgol i'w plant. Dyma un o'r penderfyniadau pwysicaf y byddwch yn eu gwneud ar ran eich plentyn. Nod y canllaw hwn yw eich helpu i ddeall y trefniadau i dderbyn plant i ysgolion yn y Fwrdeistref Sirol. Mae'n rhoi gwybodaeth am eich hawliau a'ch cyfrifoldebau ac yn ateb cwestiynau cyffredin am ysgol eich plentyn.

Fel rhiant/gwarcheidwad, mae gennych hawl i ddisgwyl i'ch plentyn dderbyn addysg dda. Mae Awdurdod Lleol Wrecsam, mewn partneriaeth â'n hysgolion, yn ymrwmo i roi cychwyn da i'n plant a'n pobl ifanc. Rydym am i bawb ym Mwrdeistref Sirol Wrecsam fod yn uchelgeisiol a bod â'r hyder, y cyfleoedd a'r cymwysterau i gyflawni eu potensial.

Rydym am i'n hysgolion fod yn rhan bwysig o'u cymunedau ac i fod yn ddewis cyntaf i rieni a disgyblion lleol, gyda chyfraddau llwyddiant sy'n cymharu'n dda ar draws Cymru a'r DU yn ehangach. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod ein grwpiau o ddysgwyr bregus yn cael eu cefnogi'n dda fel y gallant gael profiad dysgu o ansawdd.

Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddymuno pob llwyddiant i'ch plentyn wrth iddo fo neu iddi hi gychwyn ar adeg gyffrous iawn mewn bywyd, boed yn cychwyn yn yr ysgol neu'n mynd i'r ysgol uwchradd.

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r tîm derbyniadau a fydd yn fwy na bodlon helpu.

Yn gywir

**Karen Evans**

**Prif Swyddog Addysg ac Ymyrraeth Gynnar**

## Cyflwyniad

Mae'r llyfryn hwn wedi'i lunio gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i roi gwybodaeth gyffredinol ynghylch polisi derbyn ysgolion sy'n cael ei reoli gan yr Awdurdod Lleol (ALI). Bydd o ddiddordeb penodol i rieni y mae eu plant ar fin dechrau yn yr ysgol neu symud i'r cyfnod nesaf yn eu haddysg. Mae copïau o'r llyfryn hwn ar gael gan Galw Wrecsam, yn ysgolion yr Awdurdod, mewn llyfrgelloedd cyhoeddus ac ar-lein.

## Prosbectws Ysgolion

Os oes arnoch angen gwybodaeth fanylach am ysgol benodol, dylech gysylltu â phennaeth yr ysgol honno'n uniongyrchol. Mae pob ysgol yn cyhoeddi prosbectws, sy'n rhoi manylion ynghylch ei threfniadaeth a'r cwricwlwm mae'n ei ddarparu. Mae'r rhain ar gael i rieni, am ddim, o ysgolion unigol. Gallwch weld [Adroddiadau Arolygon](#) ar-lein.

## Cydraddoldeb, Hawliau Dynol ac Amrywiaeth

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn credu mai cydraddoldeb yw conglaen yr hyn rydyn ni'n ei wneud a bod gan bob unigolyn hawl i ddatblygu a chyflawni eu llawn botensial trwy'r system addysg.

Mae addysg a dysgu gydol oes yn annog parch gan sicrhau bod gan bawb ymwybyddiaeth o amrywiaeth a'i werth, i'w paratoi at fywyd lle mae pob unigolyn, beth bynnag fo'u cefndir, cred, gallu a dewisiadau, yn gallu cyfrannu at gymdeithas, a themlo eu bod yn perthyn.

Nid yw pawb yn cychwyn yn yr un lle mewn bywyd ac rydyn ni'n cydnabod bod ffactorau economaidd-gymdeithasol a rhai eraill, gan gynnwys stereoteipio negyddol, rhagfarn a bwlio ac aflonyddu ar sail hunaniaeth, yn rhwystrau a Awdurdod Lleol gyfyngu ar siawnsiau bywyd sawl grŵp o bobl. Rydym yn cydnabod rôl bwysig addysg wrth ennyn uchelgais a galluogi unigolion i esgyn yn uwch ar yr ysgol gymdeithasol ar draws yr ardal.

Rydym yn cydnabod ein rhwymedigaethau dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Hawliau Dynol 1998 fel cyflogwyr, darparwyr gwasanaeth ac arweinwyr cymunedau. Byddwn yn gweithio i annog cydraddoldeb, lleihau anghydraddoldeb, atal gwahaniaethu a hyrwyddo cydberthnasau cymunedol er budd holl fudd-ddeiliaid y gwasanaeth addysg, yn cynnwys plant a phobl ifanc, penaeithaid, cyrff llywodraethu, staff addysgu a staff eraill, gwirfoddolwyr, rhieni a'r gymuned ehangach.

Bydd yr Awdurdod yn gweithio i wella cyfleoedd bywyd pob plentyn yn yr ardal trwy gael gwared â rhwystrau i gyflawniadau addysg a datblygiad personol a bydd yn mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb.

Lle bo hynny'n briodol, byddwn yn defnyddio darpariaethau Gweithrediadau Positif, fel mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn ei ganiatáu, i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wedi hir ymsefydlu sy'n effeithio'n ddwys ar sawl grŵp lleiafrifol a byddwn yn ceisio gwella cyrhaeddiad a chynnydd pob disgyb.

## Derbyn plentyn i ysgol

Os yw eich plentyn yn dod i'r ysgol am y tro cyntaf, dylech ddewis y math o ysgol sydd ei hangen. Gall hyn gynnwys:

- Addysg cyfrwng Saesneg (dysgu Cymraeg fel ail iaith)
- Addysg cyfrwng Cymraeg (addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, lle bydd plant yn ddwyieithog. Ffefrir cychwyn cael addysg Gymraeg yn oed Meithrin, ond mae hefyd yn bosib' ar adegau eraill)
- Addysg enwadol (ysgolion ffydd gwirfoddol a gynorthwyir ac a reolir gan yr eglwys)

Mae Awdurdod Lleol Wrecsam yn gweithredu un cyfnod derbyn ym mis Medi pob blwyddyn; dylai eich plentyn gyrraedd yr oedran isod i fod yn gymwys:

Ysgol Bresennol	Ysgol Newydd	Oed erbyn 31/08/2025
Amherthnasol	Meithrin	3
Meithrin	Derbyn/Cynradd	4
Cynradd	Uwchradd	11

## Amserlen derbyniadau

Cyfnodau Derbyn	Pecynnau derbyn ar gael i rieni o	Cyfnod i rieni ystyried	Dyddiad cau i dderbyn ffurflenni Cyflawn	Cyfnod dyrannu'r Awdurdod Derbyn	Rhieni'n cael gwybod erbyn
Uwchradd	02/09/2024	02/09/2024 – 04/11/2024	04/11/2024	05/11/2024 – 06/01/2025	03/03/2025
Derbyn/Cynradd	23/09/2024	23/09/2024 – 18/11/2024	18/11/2024	19/11/2024 – 24/02/2025	16/04/2025
Meithrin	06/01/2025	06/01/2025 – 17/02/2025	17/02/2025	18/02/2025 – 24/03/2025	06/05/2025



Mae'n rhaid dychwelyd ceisiadau i'r Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad cau. Mae'n bosibl y bydd llai o gyfle i'ch plentyn gael ei dderbyn i'r ysgol o'ch dewis os derbynnir eich ffurflen gais ar ôl y dyddiad hwn, oherwydd ystyrir eich cais fel un hwyr. Ceir ychwaneg o wybodaeth yn yr adran ['Ceisiadau Hwyr'](#) isod.

Ni phrosesir ceisiadau hwyr a dderbynnir wedi i'r cyfnod dyrannu ddod i ben nes bod y 'dyddiadau cynnig' wedi mynd heibio.

Dylid cyflwyno apeliadau ar gyfer y cyfnod uwchradd erbyn 14 Mawrth 2025 a dylid cyflwyno apeliadau ar gyfer Derbyng erbyn 2 Mai 2025.

## Amserlen Derbyniadau Addysg Gynnar wedi'i Hariannu

Gall plant fod yn gymwys am addysg gynnar wedi'i hariannu, gan ddibynnu ar ba bryd y cânt eu pen-blwydd yn dair oed. Ceir manylion ynglŷn â'r meini prawf cymhwyster yn yr adran ['Addysg Gynnar'](#).

Derbyniadau	Disgyblion cymwys	Cyfnod i rieni ystyried	Dyddiad cau i dderbyn ffurflenni cyflawn	Rhieni'n cael gwybod erbyn
Ionawr 2025	Disgyblion sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng 01/09/2024 a 31/12/2024	Disgyblion sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng 01/09/2024 a 31/12/2024	25 Hydref 2024	20 Tachwedd 2024
Ebrill 2025	Disgyblion sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng 01/01/2025 a 31/03/2025	Disgyblion sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng 01/01/2025 a 31/03/2025	20 Rhagfyr 2024	21 Chwefror 2025



## Sut i wneud cais

Mae'n ofynnol gwneud trefniadau sy'n galluogi rhieni i ddweud pa ysgol fyddai orau ganddynt i'w plentyn/plant ei mynychu. Yn ôl y gyfraith, bydd plant rhieni sy'n nodi pa ysgol y byddai orau ganddynt i'w plentyn/plant ei mynychu yn cael blaenoriaeth dros blant y rhai nad ydynt nodi eu hoffter.

Yn achos derbyniadau i chweched dosbarth gall rhiant, unigolyn ifanc neu'r ddau fynegi eu hoffter a dylid gwneud hynny drwy gysylltu â'r ysgol dan sylw.

Gallwch ddefnyddio ein gwasanaeth ar-lein i wneud eich cais yn unol â'r amserlen uchod ar wefan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, [Derbyniadau ysgolion](#). Mae ceisiadau papur ar gael drwy gysylltu â'r tîm derbyniadau [admission@wrexham.gov.uk](mailto:admission@wrexham.gov.uk) Dylid defnyddio'r ffurflen hon os ydych yn byw yn Wrecsam a'ch bod yn dymuno mynegi dewis am ysgol yn Wrecsam NEU mewn awdurdodau cyfagos y mae gennym gytundeb rhannu data.

Os mynegwch y byddai'n well gennych ysgol WIRFODDOL A GYNORTHWYIR (Catholig neu'r Eglwys yng Nghymru) neu ysgol SEFYDLEDIG yn Wrecsam, bydd yn ofynnol ichi lenwi ffurflenni ychwanegol i ffurflen gais yr Awdurdod Lleol, fel Ffurflen Gwybodaeth Atodol neu Ffurflen Gais Ysgol, ac efallai y bydd gofyn ichi ddarparu tystiolaeth o dderbyn Cymun. Mae'r ysgolion hynny'n gyfrifol am ystyried cais eich plentyn o gymharu â cheisiadau eraill a dderbyniwyd, yn unol â'u meini prawf eu hunain ar gyfer gordanysgrifio, felly sicrhewch eich bod yn darllen eu Polisi Derbyniadau unigol yn fanwl ac yn mynd i [wefan yr ysgol](#) er mwyn sicrhau eich bod yn darparu'r holl wybodaeth sy'n ofynnol fel bod modd ystyried eich cais.

Cynghorir rhieni'n gryf i enwi mwy nag un ysgol. Dylid rhestru'r ysgolion yn nhrefn ffafriaeth. Byddwn yn cynnig lle yn y dewis uchaf y mae modd i ni ei ddiwallu. **Ni fydd rhestru yr un ysgol sawl gwaith yn rhoi gwell siawns o gael cynnig yr ysgol honno.**

Mae'r dyddiadau ymgeisio yn yr Amserlen Derbyniadau. Mae'n bwysig dros ben cyflwyno ceisiadau'n brydlon, gan na chaiff ceisiadau a gyflwynir ar ôl y dyddiad cau eu hystyried nes bod y rhai a gyflwynwyd yn brydlon wedi'u hystyried yn gyntaf.

## Derbyniadau i ysgolion y tu allan i Awdurdod Lleol Wrecsam

Mae Wrecsam yn gweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol gerllaw er mwyn cydlynu trefniadau derbyn. Os yw rhieni'n dymuno mynegi y byddai'n well ganddynt ysgol mewn Sir heblaw am Wrecsam, dylent ddefnyddio ffurflen ddewisiadau Wrecsam beth bynnag ac fe drosglwyddwn y

ffurflen wedyn i'r Awdurdod Lleol perthnasol (ac eithrio Cyngor Gorllewin Swydd Caer a Dinas Caer), yn unol â'n Cytundeb Rhannu Data.

Mynediad Uwchradd: rydym yn rhannu data â:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint
- Cyngor Sir Amwythig

Mynediad Cynradd: rydym yn rhannu data â:

- Cyngor Sir Ddinbych
- Cyngor Sir y Fflint

Nodwch os gwelwch yn dda y gallai amserlenni Awdurdodau cyfagos fod yn wahanol i'r uchod. Os yw'r ysgol yr ydych yn dymuno ei nodi fel eich dewis cyntaf mewn Sir arall, cysylltwch â'r Awdurdod Lleol perthnasol er mwyn sicrhau nad ydych yn methu'r dyddiad cau:

Cyngor Sir Ddinbych:

[admissions@denbighshire.gov.uk](mailto:admissions@denbighshire.gov.uk)

**Ffôn: 01824 706000**

Cyngor Sir y Fflint:

[admissions@flintshire.gov.uk](mailto:admissions@flintshire.gov.uk)

Cyngor Sir Amwythig:

[admissions@shropshire.gov.uk](mailto:admissions@shropshire.gov.uk)

**Ffôn: 03456789008**

Cyngor Gorllewin Swydd Gaer a Chaer<sup>1</sup>:

[admissions@cheshirewestandchester.gov.uk](mailto:admissions@cheshirewestandchester.gov.uk)

**Ffôn: 0300 123 7039**

<sup>1</sup> Os ydych yn dymuno gwneud cais am ysgol yng Ngorllewin Swydd Gaer a Chaer, mae'n rhaid i chi ddefnyddio eu ffurflen gais nhw gan na allwn brosesu ceisiadau ar gyfer ysgolion yn yr ardal honno.

## Ceisiadau hwyr

Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai hynny a gaiff eu derbyn erbyn y dyddiad cau. Os yw'r Awdurdod Lleol o'r farn bod y ffurflen gais yn hwyr am resymau da, bydd yn cael ei hystyried gyda'r rhai a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Gyda phob ffurflen hwyr, rhaid darparu tystiolaeth ategol yn nodi'r rheswm.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu graddio yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio, a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sydd uchaf ar y raddfa hyd ddiwedd y cyfnod dyrannu. Bydd rhestr aros hefyd yn cael ei chynnal ar gyfer yr ysgol honno os bydd angen a bydd unrhyw le ddaw ar gael yn cael ei gynnig i'r ymgeisydd yn y safle uchaf ar y rhestr.

## Y broses o gynnis lle mewn ysgol

Bydd pob plentyn yn cael ei dderbyn os nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. Nifer Derbyn pob ysgol yw nifer y plant y gellir eu derbyn i bob grŵp blwyddyn yn ystod y flwyddyn ysgol. Caiff Nifer Derbyn pob ysgol ei gyfrifo trwy ddefnyddio'r dull asesu capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru, ['Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru'](#). Mae Niferoedd Derbyn pob ysgol wedi eu cynnwys ar y ['Rhestr o Ysgolion'](#).

Os bydd mwy o rieni'n enwi ysgol benodol fel un o'u dewisiadau cyntaf nag sydd o lefydd ar gael, a'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd, bydd yr Awdurdod Lleol yn defnyddio'r meini prawf gordanysgrifio er mwyn graddio ymgeiswyr i weld i bwy y gellir cynnig lle. Bydd yr holl ddewisiadau a fynegwyd yn cael eu hystyried ar sail gyfartal. Golyga hyn yn y lle cyntaf y bydd yr holl ddewisiadau'n cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio yn unig h.y. heb ystyried ym mha safle yr oedd yr ysgol yn rhestr ddewisiadau'r rhieni. Os gellir cynnig lle mewn mwy nag un o'r dewis ysgolion (oherwydd bod gan yr ysgol a ffeirir leoedd heb eu llenwi, neu oherwydd bod gan yr ymgeisydd flaenoriaeth digon uchel yng ngoleuni meini prawf ysgol sydd wedi'i gordanysgrifio, neu oherwydd bod ysgol wedi derbyn yr un nifer o geisiadau â nifer y llefydd sydd ar gael), cynigir lle yn yr ysgol a oedd uchaf ar restr dewisiadau'r rheini.

**Noder:** Ni fydd mynegi hoffter o ysgol benodol yn gwarantu lle yn yr ysgol honno os yw hi wedi'i gordanysgrifio. Os bydd mwy o rieni yn gwneud cais am lefydd yn yr ysgol nag sydd o lefydd ar gael, bydd yr Awdurdod Lleol yn rhoi'r meini prawf gordanysgrifio ar waith er mwyn clustnodi llefydd yn ôl y polisi.

## Ysgolion Ffydd Gwirfoddol a Gynorthwyr ac Ysgolion Sefydledig

Os byddwch enwi ysgol wirfoddol a gynorthwyr (Ysgol Gatholig neu'r Eglwys yng Nghymru) yn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam fel eich dewis cyntaf, bydd eich manylion yn cael eu hanfon at yr ysgol berthnasol. Efallai hefyd y bydd angen i chi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol sydd ar gael yn uniongyrchol o'r ysgol. Mae'r amserlen ar gyfer derbyniadau (uchod) yn berthnasol i ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr ac ysgolion sefydledig hefyd. Yr ysgolion fydd sy'n gyfrifol am ystyried cais eich plentyn ochr yn ochr â cheisiadau eraill a dderbynnir yn unol â'u meini prawf gordanysgrifio eu hunain. Dylai llywodraethwyr yr ysgol ddefnyddio meini prawf gordanysgrifio'r ysgol ei hun i roi ceisiadau yn eu trefn a chynnig llefydd. Bydd unrhyw geisiadau nad oes modd eu bodloni yn cael eu dychwelyd i'r awdurdod lleol a'u trin yn gyfartal â cheisiadau eraill i Ysgolion Cymunedol Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Mae 1 Ysgol Uwchradd Sefydledig yn Wrecsam:

- Ysgol Maelor, Penley

Mae 1 Ysgol Uwchradd Ffydd a Rennir yn Wrecsam:

- Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd Sant Joseff, Wrecsam

Mae 2 Ysgol Gynradd Gatholig yn Wrecsam:

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne Wrecsam
- Ysgol Gynradd Gatholig Y Santes Fair, Wrecsam

Mae 9 Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru yn Wrecsam

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Bronington
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Madras
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Y Mwynglawdd
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Sant Chad

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Paul

Mae'r ysgolion uchod yn Awdurdodau Derbyn ynddynt eu hunain, ac efallai y byddant yn gofyn ichi lenwi Ffurflen Gwybodaeth Atodol a/neu ffurflen gais ar wahân sy'n benodol i'r ysgol. Sicrhewch eich bod yn **darllen Polisi Derbyniadau'r ysgol yn fanwl** er mwyn ichi gynnwys yr holl wybodaeth angenrheidiol, gan fod yn rhaid ichi gwblhau pob cam sy'n ofynnol cyn bod modd ystyried eich cais.

Mae [Polisi Derbyniadau](#) pob un o'r ysgolion hyn i'w weld yn yr adran berthnasol ac ar wefan yr ysgol dan sylw.

Mae pump o ysgolion cynradd Gwirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru yn Wrecsam a'r Awdurdod Lleol yw'r awdurdod derbyn ar gyfer y rheiny. Mae Polisi Derbyniadau'r Awdurdod Lleol yn berthnasol i'r ysgolion hyn:

- Ysgol Wirfoddol a Reolir Borderbrook
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru Eyton
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir gan yr Eglwys yng Nghymru Pentre
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir yr Eglwys yng Nghymru San Silyn
- Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Sant Peter, Yr Orsedd

## Polisi derbyniadau i ysgolion

Y Cyngor Sir, sef yr Awdurdod Lleol, sy'n gyfrifol am bennu'r trefniadau ar gyfer derbyniadau i'r holl ysgolion cynradd ac uwchradd cymunedol, gan gynnwys ysgolion gwirfoddol a reolir. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymgynghori â Chyrrff Llywodraethol a'r Awdurdodau Addysg Esgobaethol bob blwyddyn ynglŷn â derbyniadau.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â gofynion statudol a [Chod Derbyn i Ysgolion Llywodraeth Cymru](#) ac yn ystyried y dewis a fynegir gan rieni yng nghyd-destun ei ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y gwneir defnydd effeithiol o adnoddau addysgol. Wrth ystyried ceisiadau, bydd yr Awdurdod Lleol yn glynu wrth ddarpariaethau'r Cod Derbyn i Ysgolion sy'n nodi y dylai awdurdodau derbyn dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr Ysgol ac anaml iawn y bydd yn gallu profi rhagfarn fel sail dros wrthod disgybl ychwanegol tra bydd y niferoedd yn aros yn is na'r nifer derbyn.

O dan God Derbyniadau'r Ysgol, efallai y bydd yn rhesymol dan amgylchiadau eithriadol i'r awdurdod lleol, gyda chytundeb y Pennaeth, arfer disgrisiwn i dderbyn mwy o ddisgyblion na'r nifer derbyn, ar yr amod nad yw'r fath dderbyniadau'n effeithio'n andwyol ar yr ysgol yn y tymor hirach, yn cynnwys, ymysg eraill, y ddyletswydd i gydymffurfio â'r gofynion cyfreithiol perthnasol i faint dosbarthiadau babanod.

Bydd yr Awdurdod Lleol yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i sicrhau y darperir addysg effeithiol ac y defnyddir adnoddau'n effeithlon. Wrth wneud hynny, bydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried yr holl adnoddau, gan gynnwys llety a staffio, sydd ar gael i bob ysgol ac unrhyw gyfyngiadau a osodir gan drefniadaeth yr ysgol a'r cwricwlwm. Bydd hefyd yn ystyried y goblygiadau i'r awdurdod o ran adnoddau a'r effaith ar bolisiau addysg eraill.

Pan fydd rhiant yn rhoi gwybodaeth dwyllodrus neu fwriadol gamarweiniol er mwyn cael lle mewn ysgol ar gyfer eu plentyn, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig o le yn ôl. Lle caiff lle ei dynnu'n ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, rhaid ystyried y cais o'r newydd a chynnig hawl i apelio os gwrthodir lle.

## Cyfnodau derbyn

### 1. ADDYSG GYNNAR WEDI'I HARIANNU

Gallai plant sy'n byw yn Wrecsam fod yn gymwys i gael 10 awr o Addysg Gynnar wedi'i Hariannu, gan ddibynnu ar ba bryd y cânt eu pen-blwydd. I blant sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng **1 Medi a 31 Rhagfyr**, darperir lleoedd wedi'u hariannu yn nhymhorau'r Gwanwyn a'r Haf. I blant sy'n cael eu pen-blwydd yn dair oed rhwng **1 Ionawr a 31 Mawrth**, darperir lleoedd wedi'u hariannu yn nhymor yr Haf.

Mae plant a anwyd ar 1 Ebrill neu wedi hynny'n derbyn eu haddysg yn nosbarthiadau meithrin yr ysgolion yn nhymor yr Hydref ar ôl eu pen-blwydd yn dair oed.

Gall rhieni fynegi y byddai'n well ganddynt leoliad cymeradwy, a allai fod yn gylch chwarae cyn ysgol (cyfrwng Cymraeg neu Saesneg), meithrinfa ddydd breifat neu ddosbarth meithrin mewn ysgol. Darperir rhestr lawn o leoliadau cymeradwy yma: ['Addysg Gynnar wedi'i Hariannu'](#)

Ceir ychwaneg o fanylion ynglŷn â manteision Addysg Gynnar a sut i wneud cais yma: ['Addysg Gynnar wedi'i Hariannu'](#)

#### Nodiadau:

- Os derbynnir plentyn i leoliad Hawl Bore Oes mewn ysgol benodol, nid yw hynny'n gwarantu y bydd yn cael ei dderbyn i'r dosbarth meithrin yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd.
- Ni ddarperir cludiant

Mae Addysg Gynnar wedi'i Hariannu'n rhan o 'gynnig gofal plant 30 awr' Llywodraeth Cymru ar gyfer plant tair a phedair oed sydd â rhieni sy'n gweithio. Darperir holl fanylion y cynnig gofal plant yn Wrecsam yma: ['Cynnig Gofal Plant Cymru'](#)

### 2. MEITHRIN

Mae ar Awdurdodau Lleol yng Nghymru ddyletswydd i ddarparu digon o lefydd meithrin yn eu hardal. Bydd plentyn yn dod yn gymwys i gael lle mewn dosbarth meithrin yn ystod y mis Medi yn dilyn ei ben-blwydd yn 3 oed. Nid yw addysg feithrin yn orfodol ac nid oes gan rieni unrhyw hawl i apelio ynglŷn â derbyniadau meithrin dan [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#).

Darperir addysg feithrin ym mhob ysgol/uned ar sail 5 sesiwn, 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae llefydd ar gael mewn dosbarthiadau Meithrin ym mhob ysgol gynradd yn Wrecsam hyd at y Nifer Derbyn ym mhob ysgol.



Caiff rhieni fynegi dewis o ran dosbarth meithrin waeth beth yw'r pellter rhwng cartref y plentyn a'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis yn gwarantu lle yn y feithrinfa honno. Yn achos gordanysgrifio, ymdrinnir â cheisiadau am lefydd meithrin trwy ddefnyddio'r meini prawf gordanysgrifio ar gyfer ysgolion cynradd fel y'u nodir yn y canllaw hwn.

**Nodiadau:**

- Os derbynnir plentyn i ddosbarth meithrin mewn Ysgol Gynradd benodol nid yw hynny'n gwarantu y bydd yn cael ei dderbyn i'r dosbarth derbyn yn yr ysgol honno. Bydd angen gwneud cais newydd.
- Ni ddarperir cludiant
- Nid oes hawl i apelio yn erbyn derbyniadau meithrin

**3. CYNRADD (DERBYN)**

Bydd yr Awdurdod yn derbyn plentyn i ysgol gynradd a gynhelir ar ddechrau'r flwyddyn ysgol os yw'r plentyn wedi cael ei ben-blwydd yn 4 oed ar neu cyn 31 Awst yn y flwyddyn galendr honno.

Pan fydd lle mewn dosbarth derbyn wedi'i gynnig a'i dderbyn, caiff rhieni ohirio dyddiad dechrau eu plentyn tan ddechrau'r tymor yn dilyn eu pen-blwydd yn 5 oed. Ni chaiff rhieni ohirio'r dyddiad dechrau y tu hwnt i'r cyfnod hwn, na'r tu hwnt i'r flwyddyn academiaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei chyfer.

Yn unol â'r [ddeddfwriaeth](#), cyfyngir maint dosbarthiadau babanod (Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2) i ddim mwy na 30 fesul athro/athrawes. O ran dosbarthiadau iau (Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6), y targed yw dim mwy na 30 fesul athro/athrawes.

**4. UWCHRADD**

Fel arfer, bydd disgyblion yn cael eu trosglwyddo o ysgol gynradd i ysgol uwchradd yn ystod y mis Medi yn dilyn eu pen-blwydd yn un ar ddeg oed.

## Meini prawf gordanysgrifio

Bydd pob disgybl yn cael ei dderbyn os nad yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd. Fodd bynnag, os yw'r Nifer Derbyn wedi ei gyrraedd, bydd ceisiadau yn cael eu hystyried yn erbyn y meini prawf gordanysgrifio, a restrir yn nhrefn blaenoriaeth.

Bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi eu henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu derbyn cyn defnyddio'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.

### Meini prawf i'w defnyddio gan yr Awdurdod Lleol, yn ôl trefn blaenoriaeth, ar gyfer derbyniadau i Ysgolion Meithrin, Cynradd ac Uwchradd:

1. Plant sy'n derbyn gofal neu blant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
2. Plant sydd ag anghenion meddygol eithriadol, neu anghenion addysgol sydd, ym marn yr Awdurdod Derbyn, yn cyfiawnhau eu derbyn i ysgol benodol
3. Plant y mae eu rhieni'n dewis ysgol sydd yr ysgol addas agosaf i gyfeiriad cartref y disgybl, gan roi blaenoriaeth i ddisgyblion sy'n bodloni maen prawf (4) isod
4. Disgyblion fydd â brawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol o'u dewis ar y dyddiad derbyn disgwylledig. Dim ond ar gyfer y cyfnod addysg statudol, h.y. hyd at Flwyddyn 11, y defnyddir y 'rheol brawd a chwaer'
5. Plant eraill nad yw meini prawf 1 i 4 uchod yn berthnasol iddynt

*Mae'r Awdurdod Lleol wedi nodi y gall creu safle ysgol newydd ym Mwrzas olygu i rai rhieni na fyddant bellach yn blodloni'r meini prawf ysgol agosaf o fewn polisi gordanysgrifio yr ysgol y mae eu plant hŷn yn ei mynychu (h.y. Bodhyfryd, Plas Coch). Mewn achosion o'r fath, bydd yr Awdurdod Lleol yn gosod y diwygiad dros dro a ganlyn ar y polisi gordanysgrifio presennol rhwng 2022 a 2028. Nod hyn yw sicrhau y gall plant iau sy'n cychwyn yn yr ysgol fynychu yr un ysgol â'u brodyr neu chworydd hŷn, ar yr amod mai'r ysgol honno oedd yr ysgol addas agosaf i'r brodyr neu chworydd hŷn hynny.*

*Lle bo gan rieni neu ofalwyr blentyn ar gofrestr ysgol cyfrwng Cymraeg yn Wrecsam pan fo'r ysgol cyfrwng Cymraeg newydd yn agor yn 2022, a'u bod yn bodloni'r meini prawf canlynol, bydd y dewis ganddynt i'r Awdurdod Lleol ddiystyru'r ysgol newydd ar dderbyn unrhyw gais ar gyfer brodyr neu chworydd iau yn y cylchoedd derbyniad Meithrin a Derbyn rhwng Medi 2022 a Medi 2028.*

- *Mae'n rhaid i'r plentyn sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd fod o oedran ysgol statudol.*
- *Mae'n rhaid i'r plentyn sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd ddal i fod ar gofrestr yr ysgol ym Medi blwyddyn derbyn unrhyw frodyr neu chwiorydd eraill.*
- *Mae'n rhaid i'r plentyn sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd fodloni'r meini prawf ysgol agosaf presennol.*
- *Mae'n rhaid i'r plentyn sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd fod yn byw ar yr un cyfeiriad ag yr oedd adeg gwneud y cais oedd yn bodloni'r meini prawf ysgol agosaf.*

## Gwneud y penderfyniad

Os oes mwy o ymgeiswyr nag o lefydd yn unrhyw un o'r categorïau uchod, rhoddir blaenoriaeth i ymgeiswyr sy'n byw agosaf i'r ysgol, gyda'r pellter wedi'i fesur o gyfeiriad cartref y plentyn i brif fynedfa gydnabyddedig yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo trwy ddefnyddio System Mapio Daearyddol yr Awdurdod Lleol.

Os nad yw'r awdurdod yn gallu diwallu dewis(iadau) rhiant, gofynnir i'r rhiant ystyried llefydd sydd ar gael mewn ysgolion eraill.

Ar gyfer dyrannu llefydd dehonglir yr ysgol briodol agosaf fel a ganlyn:

- Yr ysgol Awdurdod Lleol agosaf i gartref y plentyn a fesurir o gyfeiriad cartref y plentyn i'r ysgol yn ôl y llwybr cerdded cyflymaf
- Yr ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf i gartref y plentyn a fesurir o gyfeiriad cartref y plentyn i'r ysgol yn ôl y llwybr cerdded cyflymaf; lle mae rhieni'n dymuno i'w plant gael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- Yr ysgol Enwadol agosaf lle mae rhieni'n dymuno i'w plant gael eu haddysg mewn ysgol enwadol

Wrth benderfynu ar yr 'ysgol addas agosaf', bydd yr Awdurdod yn derbyn cyfeiriad cartref y disgybl yn unig ac nid cyfeiriad gwarchodwr plant, ffrind neu daid a nain, er enghraifft.

## Hysbysu rhieni

Bydd rhieni'n cael eu hysbysu o ganlyniad cais i blentyn gael ei dderbyn i ysgol drwy e-bost. Ble mae'r cais wedi'i wrthod, bydd y llythyr/e-bost yn nodi'r rhesymau dros y penderfyniad a'r hawl i apelio.

Gofynnir i rieni wneud penderfyniad erbyn dyddiad penodedig ynglŷn ag un neu fwy o'r opsiynau canlynol:

- Rhoi enw'r plentyn ar restr aros;
- Mynd ymlaen i apelio a rhoi enw'r plentyn ar restr aros;
- Derbyn y lle a gynigiwyd mewn ysgol arall y mynegwyd dewis ar ei chyfer;
- Gwneud cais am ysgol arall drwy e-bostio'r Tîm Derbyniadau;

## Rhestrau aros

Bydd rhestrau aros ar gyfer ysgolion wedi'u gordanysgrifio yn cynnwys y plant hynny y mae eu rhieni wedi gwneud cais penodol ysgrifenedig, gorau oll ar e-bost, am gael eu rhoi ar restr aros yr ysgol, ynghyd â'r rhai hynny y derbyniwyd ffurflen apêl ganddynt. Bydd rhestrau aros yn cael eu cynnal tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw. Wedi'r dyddiad hwnnw bydd yn rhaid i rieni sy'n dal yn dymuno i'w plentyn gael ei ystyried am le wneud cais penodol, ysgrifenedig am gael aros ar y rhestr aros. Os daw llyfudd yn wag byddant yn cael eu clustnodi yn unol â'r meini prawf gordanysgrifio ac nid yn ôl y dyddiad pan gyflwynwyd y cais neu pan ychwanegwyd enw'r plentyn at y rhestr aros.

Pan fydd ceisiadau i drosglwyddo rhwng ysgolion y tu allan i'r cyfnodau derbyn arferol yn cael eu gwrthod, bydd yr Awdurdod Lleol, gyda chytundeb y rhiant, yn rhoi enw'r plentyn ar restr aros a fydd yn aros ar agor tan ddiwedd y tymor ysgol<sup>2</sup> y gwnaed y cais ar ei gyfer. Ar ôl y dyddiad hwnnw mae'n rhaid i rieni wneud cais penodol bod enw eu plentyn yn aros ar y rhestr aros am dymor ysgol ychwanegol neu bydd enw'r plentyn yn cael ei ddileu.

<sup>2</sup> Os gwneir y cais ar ddiwedd tymor ysgol, gall enw'r plentyn aros ar y rhestr aros tan ddiwedd y tymor canlynol

## Diffiniadau

### 1. AWDURDOD DERBYN

Y corff sy'n gyfrifol am bennu trefniadau derbyn ysgol a'u gweithredu. Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer ysgolion cymunedol ac ysgolion gwirfoddol a reolir. Yn achos ysgolion sefydliadol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyr, y Corff Llywodraethol yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgolion hynny.

### 2. CYFEIRIAD CARTREF

Man preswyllo parhaol presennol y plentyn yw'r cyfeiriad y dylid ei roi ar y ffurflen gais.

Mae 'parhaol' yn golygu'r cyfeiriad y mae eich plentyn yn byw ac yn cysgu ynddo y rhan fwyaf o'r wythnos. Cyfeiriad eu rheini fydd hyn fel arfer.

**Noder:** dim ond y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn ('Rhieni') Awdurdod Lleol wneud cais bod plentyn yn cael ei dderbyn mewn ysgol. Os yw'r cyfrifoldeb rhiant wedi ei rannu, dylai pob rhieni gytuno â'r dewisiadau a restrir yn y cais.

**Cyfrifoldeb y rhieni yw dod i'r cytundeb hwn.**

Os yw'r plentyn yng ngwarchodaeth gyfartal ei ddau riant, y rhieni ddylai benderfynu pa gyfeiriad cartref i'w ddefnyddio ond gallwn ofyn am Orchymyn Llys dilys neu dystiolaeth arall i gadarnhau fod y trefniant hwn yn bodoli. Os na allwch gytuno â'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech geisio eich cyngor cyfreithiol eich hun ar unwaith mewn perthynas â gwneud cais brys i'r Llys.

Gellir gwirio cyfeiriadau yn erbyn cofnodion a gedwir gan ysgol/feithrinfa bresennol eich plentyn. Yn ychwanegol gellir gofyn i rieni brofi eu bod yn byw mewn cyfeiriad penodol drwy ofyn iddynt ddangos unrhyw un o'r dogfennau canlynol: gohebiaeth gan gyfreithiwr yn cadarnhau bod pryniant eiddo wedi ei gwblhau, Cytundeb Tenantiaeth, Cyfriflen Forgais, gohebiaeth am Dreth y Cyngor, gohebiaeth gan gyflenwr gwasanaethau neu dystiolaeth arall sydd ym marn yr Awdurdod Lleol yn briodol.

Nodwch fod yn rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn ymwneud â'r cyfeiriad a nodwyd yn y ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r dogfennau hefyd fod a'ch enw chi arnynt a rhaid iddynt fod yn ddiweddar, dim mwy na 3 mis oed.

At ddibenion dyrannu lleoedd, bydd unrhyw gynnig am le mewn ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y cyfnod dyrannu ac fe fydd yn cael ei gynnig ar yr amod bod y plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai ein bod wedi cael gwybod ac wedi derbyn eu bod wedi symud yn y cyfamser.

Os nad yw'r Awdurdod Lleol yn fodlon â'r dystiolaeth a gafwyd, gan gynnwys, ond nid yn unig, os nad ydych wedi dilyn telerau'r polisi hwn, yna ni fydd cais eich plentyn yn cael ei dderbyn a chaiff ei dynnu'n ôl.

Hysbysir rhieni y gellir tynnu lle mewn ysgol yn ôl yn gyfreithlon os yw'r wybodaeth a roddwyd ar eu ffurflen gais yn dwyllodrus neu'n gamarweiniol. Nodwch y gall rhoi gwybodaeth ffug yn fwriadol ar ffurflen gais fod yn drosedd o dan Ddeddf Twyll 2006. Bydd yr Awdurdod Lleol yn ymchwilio i bob cais lle mae amheuaeth ynglŷn â'r cyfeiriad a roddwyd.

Ar y rhieni mae'r cyfrifoldeb dros roi digon o dystiolaeth ddogfennol i gefnogi'r datganiad mai preswylfa barhaol y plentyn yw'r cyfeiriad a roddwyd. Bydd defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol neu anghywir, gan gynnwys hepgor gwybodaeth, yn arwain at dynnu cynnig yn ôl os oedd yr Awdurdod Lleol eisoes wedi cynnig lle mewn ysgol.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond bod hynny yn ystod y cyfnod dyrannu, mae'n rhaid i chi roi prawf o'ch cyfeiriad newydd i ni. Mae tystiolaeth dderbyniol yn cynnwys, er enghraifft: llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau bod pryniant eiddo wedi ei gwblhau neu gopi o gytundeb rhentu cyfredol, wedi'i lofnodi gan y tenantiaid a'r landlordiaid, sy'n dangos cyfeiriad yr eiddo a dyddiad cychwyn y denantiaeth. Nodwch fod yn rhaid i unrhyw ddogfennau a ddarperir fod yn berthnasol, yn gyfredol ac yn ymwneud â'r cyfeiriad a nodwyd yn y ffurflen gais. Mae'n rhaid i'r dogfennau hefyd fod â'ch enw chi arnynt a rhaid iddynt fod yn ddiweddar, dim mwy na 3 mis oed.

### 3. PELLTER

Mae'r Cyngor yn defnyddio System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS), i gyfrifo'r pellter o'r cartref i'r ysgol mewn milltiroedd. Mae'r system wedi'i hymgorffori ym meddalwedd Capita ONE. Bydd cyfesurynnau cartref ymgeisydd yn cael eu pennu gan ddefnyddio Rhestr Tir ac Eiddo Lleol a Data Pwynt Cyfeiriad Arolwg Ordnans. Bydd y man cychwyn ar gyfer asesu llwybr yn cael ei bennu fel y pwynt agosaf ar y rhwydwaith llwybrau cerdded o gyfeiriad y disgybl (prif fynedfa'r eiddo fel arfer), i bwynt canolog adeilad yr ysgol. Caiff y rhwydwaith i ddiweddarau'n flynyddol.

Dylid nodi y darperir cludiant yn unol â [Pholisi Cludiant y Cyngor](#) yn unig. Os yw disgybl, o ganlyniad i ddymuniad rhiant, yn mynychu ysgol heblaw'r ysgol addas agosaf a gydnabyddir gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, mae'n rhaid deall bod rhieni yn derbyn cyfrifoldeb llawn am gostau a threfniadau cludiant.

#### **4. ANGEN MEDDYGOL/CYNLLUN DATBLYGU UNIGOL (CDU)**

Os oes gan y plentyn angen meddygol penodol (e.e. anabledd a allai olygu bod teithio i ysgol bellach yn fwy nodd), haid cyflwyno tystiolaeth ategol cyn diwedd y cyfnod dyrannu lleoedd. Rhaid nodi'r rhesymau pam mai'r ysgol dan sylw yw'r un fwyaf addas a'r anawsterau a fyddai pe bai'n rhaid i'r plentyn fynd i ysgol arall, er enghraifft, llythyr gan weithiwr iechyd cofrestredig fel meddyg neu weithiwr cymdeithasol. Bydd y dystiolaeth yn cael ei hasesu gan ymgynghori gydag uwch-reolwyr perthnasol.

#### **5. BRODYR / CHWIORYDD**

Diffinnir brawd neu chwaer fel brawd neu chwaer llawn, hanner brawd neu chwaer, llysfrawd neu chwaer, neu frawd neu chwaer wedi'u mabwysiadu neu eu maethu sy'n byw gyda'i gilydd fel un teulu yn yr un cyfeiriad, a lle mae'r brawd neu'r chwaer hŷn o oedran ysgol statudol ac yn dal i fod wedi'i gofrestru/chofrestru yn yr ysgol a ddewiswyd pan fydd y plentyn iau yn gymwys i fynychu

#### **6. PLANT O ENEDIGAETH LUOSOG**

Mae Cod Derbyniadau i Ysgolion Llywodraeth Cymru'n nodi na Awdurdod Lleol dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 o ddisgyblion gydag un athro neu athrawes, ond mae'r cod yn cyfrif genedigaethau lluosog yn eithriad a gallant gael eu derbyn y tu hwnt i'r nifer derbyn. Pan fydd un brawd neu chwaer o enedigaethau lluosog yn cael y lle olaf, bydd y brodyr neu'r chwiorydd sy'n weddill yn cael eu derbyn fel eithriadau.

#### **7. CHYFRIFOLDEB RHIANT**

Yn dilyn newidiadau a wnaed i'r ddeddfwriaeth ynghylch plant yn Neddf Plant 1989, a ddaeth yn gyfraith fis Hydref 1991, mae angen i ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' dros bob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant, nad yw'r plentyn yn byw gyda nhw, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i fod yn rhan o addysg y plentyn. part in the child's education.

Ymgymryd â chyfrifoldeb rhiant:

- Mae'r fam â chyfrifoldeb rhiant yn awtomatig o'r adeg y genir y plentyn
- Yng Nghymru a Lloegr, os yw rhieni plentyn yn briod â'i gilydd ar adeg yr enedigaeth neu wedi mabwysiadu plentyn gyda'i gilydd, mae gan y ddau ohonynt gyfrifoldeb rhiant. Nid



yw rhieni'n colli cyfrifoldeb rhiant os ydynt yn ysgaru, ac mae hynny'n berthnasol i'r rhiant y mae'r plentyn yn preswyllo â hwy a'r llall. Nid felly mohoni i rieni dibriod, o reidrwydd.

- Mae'n rhaid i'r tad fod yn briod â'r fam pan enir y plentyn i gael cyfrifoldeb rhiant, neu sicrhau cyfrifoldeb cyfreithiol ar gyfer y plentyn drwy un o'r tri o ddulliau a ganlyn:
  - (ers 1 Rhagfyr 2003) drwy gofrestru genedigaeth y plentyn ar y cyd â'r fam
  - drwy gytundeb cyfrifoldeb rhiant â'r fam
  - drwy orchymyn cyfrifoldeb rhiant a wnaed gan Lys

Gofynnir i rieni gydweithredu â staff yr ysgol drwy ddarparu manylion y bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer y disgybl. Dylid hysbysu'r ysgol o unrhyw newid yn nhrefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal beunyddiol y plentyn.

Mae unrhyw gyfeiriad at 'rieni' yn y llyfryn hwn yn cynnwys unrhyw unigolyn sydd â'r plant yn eu gofal.

## **Derbyn disgyblion o'r tu allan i Wrecsam**

Bydd disgyblion nad ydynt yn byw yn Wrecsam sy'n gwneud cais i gael eu derbyn i ysgol yn Wrecsam yn cael cynnig lle mewn ysgol yn unol â'r polisi derbyn.

## **Newid Ysgol yn ystod y flwyddyn ysgol**

Mae gan ysgolion Wrecsam brotocol y cytunwyd arno gyda'r Awdurdod Lleol ar gyfer symud disgybl o un ysgol a enwebwyd i un arall ar adeg wahanol i'r pwynt pontio arferol (Derbyn a Blwyddyn 7).

Dylai rhiant sy'n ceisio trosglwyddiad o'r fath siarad gyda phennaeth ysgol bresennol y plentyn i ddechrau i drafod y rhesymau dros y trosglwyddiad hwnnw. Mae rhieni yn cael eu cynghori'n daer i beidio trosglwyddo disgyblion yn ystod y flwyddyn academiaidd, heblaw pan maent wedi symud tŷ, i osgoi amharu ar eu cyrsiau ysgol.

Os, yn dilyn y drafodaeth hon y bydd y rhiant yn dymuno parhau â'r broses, mae'n rhaid i'r rhiant lenwi ffurflen drosglwyddo.

Ar gyfer disgyblion sy'n symud i mewn i'r ardal ar adegau gwahanol i'r adeg derbyn arferol (Mis Medi bob blwyddyn), bydd yr Awdurdod Lleol yn ymdrechu i gwrdd â gofynion rhieni gymaint â phosibl.

Yn y mwyafrif o geisiadau bydd rhieni yn cael gwybod am y penderfyniad o fewn 15 diwrnod ysgol. Os oes yna bryderon ychwanegol neu faterion yn ymwneud â throsglwyddiad, mae'n bosibl y bydd y cais yn cael ei ystyried dan Brotoocol Mynediad Teg yr Awdurdod Lleol er mwyn sicrhau bod darpariaeth briodol yn ei lle.

**Mae'r Awdurdod yn barod i ystyried ceisiadau am drosglwyddiadau rhwng ysgolion y tu allan i'r cyfnodau derbyn arferol pan mae hynny er budd pennaf y plentyn/plant. Fodd bynnag, ystyrir Blynnyddoedd 10 ac 11 mewn ysgol uwchradd yn 'gwrs 2 flynedd'. O ganlyniad, mae ceisiadau i drosglwyddo i ysgol arall yn Wrecsam, ar ôl Blwyddyn 9, yn aml yn cael effaith negyddol ar gynnydd academaidd disgyblion ac efallai na fydd yr Awdurdod Lleol yn ystyried bod symud yn briodol.**

Os yw rhieni o'r farn bod problem yn yr ysgol mor ddifrifol fel bod yn rhaid symud, fe gânt eu hannog i gymryd pob cam rhesymol i ddatrys y mater gyda'r ysgol yn gyntaf, ac yna i geisio cyngor gan y Tîm Derbyniadau os oes angen, cyn gwneud cais i drosglwyddo. O ran ceisiadau i symud ysgol lle nad yw'r disgybl yn symud i fyw, mae'r Awdurdod Lleol yn cadw'r hawl i drefnu bod y plentyn yn dechrau yn yr ysgol newydd ar ddechrau'r hanner tymor nesaf er mwyn osgoi tarfu ar addysg y plentyn dan sylw a'r plant eraill.

**Mae'n rhaid i ddisgyblion ddal i fynychu'r ysgol bresennol wrth brosesu'r cais i drosglwyddo.**

Os yw'r grŵp blwyddyn yn yr ysgol a geisir eisoes wedi cyrraedd ei nifer derbyn, efallai y gwrthodir y cais a bod y rhieni'n cael cynnig lle mewn ysgol arall. Mewn achos felly, byddai gan y rhiant hawl i apelio, fel y nodir isod. Yna gall y rhiant dderbyn y lleoliad arall neu roi gwybod eu bod am apelio.

## Y weithdrefn apelio

Os nad yw'r awdurdod yn gallu cydymffurfio â dewis y rhiant, rhoddir y rheswm dros hynny i'r rhiant yn ysgrifenedig a rhoddir gwybod iddynt am lefydd sydd ar gael mewn ysgol arall. Yna gall y rhiant dderbyn y lleoliad arall a gall roi gwybod ei fod/bod am apelio. Darperir gwybodaeth am sut i apelio. Mae gwybodaeth bellach ynglŷn â'r weithdrefn apelio ar gael gan y [tîm derbyniadau](#). Dylai apeliadau sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion cymunedol a rhai gwirfoddol a reolir gael eu hanfon yn ysgrifenedig at yr Addysg ac Ymyrraeth Gynnar, Adeiladau'r Goron, 31 Stryt Caer, Wrecsam LL13 8BG.

Dylid cyflwyno apeliadau ar gyfer y cyfnod uwchradd erbyn 14 Mawrth 2025 a dylid cyflwyno apeliadau ar gyfer Derbyn erbyn 2 Mai 2025.

Caiff apelïadau eu clywed o fewn 30 diwrnod ysgol o dderbyn yr apêl ysgrifenedig (neu o fewn 30 diwrnod gwaith os yw'n cyrraedd yn ystod gwyliau haf yr ysgol). Gwneir pob ymdrech i wrando apelïadau cyn gynted ag y bo modd. Bydd y rhieni, neu riant a chyfaill os dymunir, yn cael cyfle i ymddangos gerbron Panel Apêl Annibynnol. Anfonir llythyr at rieni yn rhoi gwybod iddynt am benderfyniad y Panel Annibynnol; bydd y penderfyniad hwn yn derfynol a bydd pob parti yn rhwym wrtho.

**Nid yw'r hawl i apelio yn berthnasol yn y cyfnod meithrin.**

## Gofal am blentyn

Mae 'Plentyn sy'n derbyn Gofal' yn golygu un sy'n 'Derbyn Gofal' gan Awdurdod Lleol yn unol ag [Adran 22 y Ddeddf Plant](#). Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dilyn rheoliadau wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff buddiannau'r plant mwyaf bregus eu diogelu. Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf ym meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, gan gynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

## Plant sipsiwn a theithwyr

Bydd plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â Chod Ymarfer Derbyniadau Ysgol 2013 a [chanllawiau Llywodraeth Cymru](#).

## Polisi iaith gymraeg ar gyfer pob ysgol

Nod Polisi iaith Gymraeg yr Awdurdod yw sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd safon o ddwyieithrwydd. Cyfrifoldeb yr Awdurdod, mewn cydweithrediad â'r Pennaeth a Llywodraethwyr yr Ysgol, fydd sicrhau bod y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu haddysgu yn unol â gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Darperir Addysg Gynradd i bob plentyn yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Darperir Addysg Uwchradd i'r holl blant yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg neu'n bennaf trwy gyfrwng y Gymraeg. Er mwyn sicrhau dilyniant pan fydd plentyn yn gadael yr ysgol gynradd, addysgir y Gymraeg fel ail iaith ym mhob ysgol uwchradd lle darperir addysg yn bennaf trwy gyfrwng y Saesneg.

Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion, yn darparu gwybodaeth lawn i rieni ac yn sicrhau eu bod yn deall manteision addysg Gymraeg a'r cyfleoedd sy'n bodoli yn Wrecsam, gan esbonio'n glir:

- Nad oes angen i rieni fod yn medru'r Gymraeg eu hunain i'w plant fanteisio ar y cyfle hwn
- Bod derbyn addysg mewn ysgol Gymraeg ddynodedig yn galluogi disgyblion i fod yn gwbl ddwyieithog
- Bod manteision deallusol yn gysylltiedig â bod yr un mor rhugl mewn dwy iaith

Gall disgyblion a fu'n derbyn eu haddysg yn Saesneg symud i ysgol cyfrwng Cymraeg ar unrhyw adeg. Mae gan yr Awdurdod Lleol wasanaeth sy'n cefnogi hwyrdyfodiaid mewn addysg Gymraeg a'u hysgolion. Mae'r ymyrraeth yn dechrau'n syth ar ôl i'r plentyn drosglwyddo i ysgol Gymraeg yn Wrecsam ac mae'r gwasanaeth yn dal i gefnogi'r plentyn nes iddynt gaffael yr iaith yn ddigonol. Ceir ychwaneg o wybodaeth yn yr adran ynghylch ['Manteision addysg Gymraeg'](#).

## Anghenion dysgu ychwanegol / darpariaeth dysgu ychwanegol

O Fedi 2021 bydd yr Awdurdod Lleol ac ysgolion/lleoliadau yn gweithredu gofynion yr ALNET (2018). Mae'r newidiadau i'r ddeddfwriaeth hon yn cynnwys newid mewn terminoleg o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Mae disgwyl hefyd i'r Awdurdod Lleol (ALI) yn y lle cyntaf i sicrhau addysg ar gyfer plant a phobl ifanc gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir. Mae eithriadau i hyn yn gyfyngedig.

Felly, mae'r mwyafrif helaeth o ysgolion prif ffrwd yn Wrecsam yn gallu cwrdd ag anghenion y disgyblion hynny gydag Anghenion Dysgu Ychwanegol trwy weithredu strategaethau priodol, rhaglenni ac ymyrraethau gwahaniaethol gofalus ac sydd wedi'u targedu i gael eu cyflenwi gan staff ysgol. Gall asiantaethau allanol gefnogi ysgolion i weithredu'r ymyrraethau wedi'u targedu ar gyfer rhai dysgwyr.

Ar gyfer rhai disgyblion bydd eu hanghenion dysgu ychwanegol yn cael eu bodloni orau mewn dosbarthiadau llai o fewn ysgol brif ffrwd neu ysgol arbennig. Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam nifer o ddosbarthiadau Darpariaeth Adnoddau mewn meithrinfeydd ac ysgolion cynradd ac uwchradd sy'n cwrdd ag anghenion y disgyblion gydag ystod o Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae mynediad i'r Ddarpariaeth Arbenigol ac ysgolion arbennig hyn yn cael ei bennu trwy Banel Cynhwysiant yr Awdurdod Lleol.

I ddysgwyr lle mae'r Awdurdod Lleol yn ystyried eu darpariaeth arbennig mae'n bwysig fod rhieni yn dal i wneud cais am leoliad prif ffrwd trwy'r weithdrefn mynediad arferol.

Dylai rhieni sy'n dymuno cael rhagor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant trwy [ALN@wrexham.gov.uk](mailto:ALN@wrexham.gov.uk) (Ffôn: 01978 295498/5499).

Mae rhieni gyda phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gallu cael mynediad i gyngor, arweiniad a chefnogaeth annibynnol trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni wedi'u darparu gan SNAP Cymru trwy 0808 801 0608 (Llun i Gwener 9.30am i 4.30pm) [helpline@snapcymru.org](mailto:helpline@snapcymru.org) neu [Gwefan SNAP cymru](http://Gwefan SNAP cymru).

## Gwasanaeth saesneg fel iaith ychwanegol

Mae'r Gwasanaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol yn cynnig cymorth iaith i ddisgyblion lle nad Cymraeg na Saesneg yw eu hiaith gyntaf.

Mae'r Gwasanaeth yn cynnwys tîm o athrawon, cymorthyddion addysgu a chymorthyddion dwyieithog sy'n gweithio gyda disgyblion i ddatblygu eu gallu i gyfathrebu yn Saesneg, i allu astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ac integreiddio.

Os bydd disgyblion sydd ag ychydig, neu ddim, Saesneg yn ymgeisio am leoedd mewn ysgolion, byddant yn cael eu hatgyfeirio at y Gwasanaeth Saesneg fel iaith Ychwanegol gan y Swyddog Derbyniadau.

Bydd y Swyddog Derbyniadau, wrth ymgynghori gyda'r pennaeth a'r rheini, yn gwneud trefniadau derbyn.

## Presenoldeb yn yr ysgol, prydlondeb ac absenoldeb

Mae'n hanfodol bod plant yn mynd i'r ysgol yn gyson os ydynt am gyflawni eu potensial. Gall absenoldebau rheolaidd neu ddi-baid o'r ysgol fod yn bryder sylweddol. Gall absenoldebau di-baid neu gyson fod â goblygiadau difrifol i les plentyn a gall effeithio ar ganlyniadau academaidd.

Mae dyletswydd gyfreithiol ar rieni neu'r rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant i sicrhau bod eu plentyn yn cael addysg yn briodol. I'r rhan fwyaf o blant, mae hyn yn golygu bod yn bresennol yn yr ysgol leol yn rheolaidd. Mae presenoldeb rheolaidd yn golygu y dylai plant fod yn yr ysgol o ddydd Llun tan ddydd Gwener yn ystod oriau agor yr ysgol.

Nid yw plant sydd ddim yn dod i'r ysgol (neu'n cyrraedd yn hwyr yn aml ac yn colli amser cofrestru) yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd. Yn gyfreithiol, mae rhai rhesymau i egluro absenoldeb o'r ysgol y gall y Pennaeth ddewis eu derbyn i ganiatáu i'r absenoldeb gael ei awdurdodi. Mae'r rhesymau hyn yn cynnwys:

- Absenoldebau meddygol neu achosion anochel eraill
- Arferion crefyddol
- Materion cludiant i'r ysgol

Rhaid i'r Pennaeth dderbyn y rhesymau hyn yn unol â [Fframwaith Presenoldeb Cymru Gyfan Llywodraeth Cymru](#) cyn y gellir eu derbyn fel rhai dilys. Efallai y bydd angen i rieni a gofalwyr ddarparu tystiolaeth benodol cyn i Bennaeth awdurdodi absenoldebau o'r fath.

Dylid trafod absenoldebau am resymau eraill, gan gynnwys gwyliau yn ystod y tymor, gyda'r Pennaeth cyn trefnu unrhyw wyliau. Dim ond y Pennaeth Awdurdod Lleol roi caniatâd i absenoldeb i fynd ar wyliau.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru'n awgrymu:

- Na ddylai ysgolion or-ddefnyddio'u disgresiwn
- Mewn amgylchiadau eithriadol, na ddylid rhoi mwy na deg diwrnod ysgol o ganiatâd i fod yn absennol mewn un flwyddyn ysgol
- Na ddylid cyfrif deg diwrnod ysgol fel yr arfer na fel hawl

Mae'r Awdurdod Lleol yn argymhell na ddylid awdurdodi gwyliau yn ystod y tymor oni bai am amgylchiadau eithriadol. Dylid gwneud apwyntiadau i weld y meddyg neu'r deintydd nad ydynt yn rhai brys y tu hwnt i oriau'r ysgol lle bo modd.

**Gallai rhieni sy'n methu â sicrhau bod eu plant yn mynychu'r ysgol yn rheolaidd gael Rhybudd Cosb Benodedig o £60 neu wynebu achos cyfreithiol.**

Gall euogfarn mewn Llys Ynadon lleol am hyn arwain at gollfarn troseddol. Gallai pob rhiant/gofalwyr hefyd dderbyn dedfryd o garchar neu ddirwy hyd at £2,500 am bob plentyn sy'n absennol o'r ysgol. Mae gan y llys hefyd y pŵer i greu Gorchymyn Rhianta pe bai angen un.

Gall rhai plant ddianc o'r ysgol heb yn wybod i'w rhieni.

- Mae gan Heddlu Gogledd Cymru bwerau i ddal unrhyw blentyn neu blant o oed ysgol y maen nhw'n credu eu bod yn absennol o'r ysgol yn anghyfreithlon
- Mae Patrôl Addysg Cymunedol hefyd yn gweithredu yn yr ardal leol
- Cefnogwch eich plentyn trwy roi gwybod i'r ysgol am y rheswm am unrhyw absenoldeb cyn gynted â phosib' ar y diwrnod mae angen iddynt fod yn absennol. Wrth ddychwelyd i'r ysgol, sicrhewch bod nodyn ysgrifenedig neu dystiolaeth feddygol yn cael ei darparu i'r Pennaeth.
- Cysylltwch â Gwasanaeth Gwaith Cymdeithasol Addysg am gyngor neu gymorth ar faterion sy'n ymwneud â phresenoldeb yn yr ysgol
- Gallwch gael cyngor neu gymorth ychwanegol gan y tîm Gwaith Ieuenctid mewn Addysg o ran materion presenoldeb yn yr ysgol



## Cludiant Ysgol

Mae'n ddyletswydd statudol ar yr Awdurdod Lleol i ddarparu cludiant yn rhad ac am ddim i'r ysgol addas agosaf ym marn yr Awdurdod Lleol i ddisgyblion o'r oedran ysgol gorfodol (Derbyn hyd ddiwedd Blwyddyn 11) sy'n byw yn y Fwrdeistref Sirol, os ydynt yn byw'n bellach na 'phellter cerdded' i'r ysgol honno. Mae'r gyfraith yn diffinio 'pellter cerdded' fel mwy na dwy filltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg gynradd a thros dair milltir i ddisgyblion sy'n derbyn addysg uwchradd.

Mae'r Awdurdod Lleol yn barnu mai'r ysgol addas agosaf yw'r ysgol agosaf i gartref y disgybl sy'n darparu'r addysg berthnasol i oed, gallu a dawn y disgybl. Mesurir pellteroedd yn ôl y llwybr cerdded byrraf rhwng y cartref a'r ysgol, fel y pennir ar sail mapiau System Gwybodaeth Ddaeryddol yr Awdurdod Lleol, a gallant gynnwys llwybrau cyhoeddus. Y llwybr byrraf posib yw'r un y bernir ei bod yn ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded arno ar ei ben ei hun, neu yng nghwmni oedolyn os yw oedran y plentyn yn galw am hynny. Gellir gwneud eithriad os bydd eich plentyn yn mynd i ysgol cyfrwng Cymraeg neu ysgol ffydd, ac nad yr ysgol a ddewiswch yw'r agosaf at eich cyfeiriad cartref. Yn y naill achos a'r llall, ni ddarperir cludiant am ddim ond os yw'r plentyn yn byw'n bellach o'r ysgol na'r isafswm a bennwyd.

Gwneir trefniadau cludiant addas ar gyfer plant ag anghenion addysgol ychwanegol, gan gynnwys darparu cludiant am ddim i'r ysgol neu sefydliad addysgol arall ar sail atgyfeiriad gan Dîm Anghenion Dysgu Ychwanegol y Cyngor.

Os yw disgybl yn mynychu ysgol sy'n wahanol i'r ysgol addas agosaf o ganlyniad i ddewis y rhieni, rhaid deall bod y rhieni'n ysgwyddo cyfrifoldeb llawn am drefniadau cludiant. Bydd hynny'n cynnwys gwneud yr holl drefniadau angenrheidiol a thalu'r gost. Os nad yw eich plentyn yn gymwys i gael cludiant am ddim, efallai y gallwn ddarparu sedd gadw mewn cerbyd ysgol sydd â seddi gwag. Codir tâl am hynny.

Gellir gweld y [Polisi Cludiant Ysgol](#) cyfredol yn llawn ar ein gwefan neu ofyn am gopi gan y Tîm Cludiant Ysgol drwy e-bostio [school.transport@wrexham.gov.uk](mailto:school.transport@wrexham.gov.uk) neu ffonio 01978 298996.

Sylwer mai dim ond plant oed derbyn a hŷn Awdurdod Lleol dderbyn cludiant ysgol am ddim. Nid yw'r Awdurdod Lleol yn darparu cludiant i ddisgyblion sy'n mynd i Ysgol Feithrin neu Ddosbarth Meithrin pan maent yn dair oed.

## Gwneud cais am gludiant ysgol

Gallwch wneud cais ar-lein, dyma'r ffordd gyflymaf a rhwyddaf. Fel arall, gall rhieni gysylltu â'r Tîm Cludiant Ysgol a gofyn am gopi o'r ffurflen gais ar bapur. Ewch i'r wefan [Cludiant Ysgol](#) i gael doler gyswllt at y drefn ymgeisio.

## Manteision addysg Gymraeg

Yn unol â gweledigaeth a strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050', polisi Cyngor Wrecsam yw bod pob plentyn yn cael cyfle i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg yn effeithiol. Bydd hyn yn darparu buddion diwylliannol ac economaidd bod yn ddwyieithog.

### Ydych chi wedi ystyried addysg cyfrwng Cymraeg i'ch plentyn?

Does dim rhaid i chi fod yn siarad Cymraeg i'ch plentyn elwa ar addysg cyfrwng Cymraeg. Pa bynnag iaith rydych chi'n ei siarad gartref, gall addysg cyfrwng Cymraeg roi cyfleoedd, profiadau a sgiliau ychwanegol i'ch plentyn. Mae dewis addysg cyfrwng Cymraeg yn rhoi'r cyfle i'ch plentyn ehangu ei sgiliau dwyieithog yn greadigol ac yn academiaidd. Mae manteision ehangach i addysg ddwyieithog hefyd gan gynnwys effaith gadarnhaol ar alluoedd gwybyddol plentyn, ac mae'r buddion hyn yn bodoli am oes.

Bydd dysgwyr sy'n dewis addysg Gymraeg yn gwbl ddwyieithog, sy'n darparu manteision di-ri ar gyfer y dyfodol. Mae meddu ar y gallu i siarad Cymraeg yn flaenoriaeth i'r llywodraeth a naill ai'n sgil hanfodol neu ddymunol ar gyfer nifer cynyddol o swyddi. Mae cyflogwyr ar draws yr holl sectorau yng ngogledd Cymru wedi nodi sgiliau dwyieithog fel un o'r sgiliau sydd eu hangen i'r dyfodol ac o ganlyniad caiff ei bwysleisio fel un o'r ysgogwyr rhanbarthol yng Nghynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru. Mae bod yn ddwyieithog hefyd yn cynyddu gallu dysgwr i ddysgu iaith arall, sy'n cynnig rhagor o gyfleoedd rhyngwladol a byd-eang.

Mae addysg cyfrwng Cymraeg ar gael i bob dysgwr. Mae plant a'u teuluoedd yn cael eu cefnogi'n llawn er mwyn sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn ffynnu ac yn dod yn fedrus ac yn hyderus yn y ddwy iaith. Mae dros 90% o'r dysgwyr sy'n cael addysg Gymraeg yn Wrecsam yn dod o deuluoedd di-Gymraeg, felly mae ysgolion wedi hen arfer cefnogi taith caffael iaith plant. Mae'r Awdurdod hefyd yn cefnogi hwyrdyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg. Mae mwy o fanylion i'w gweld isod.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) yr Awdurdod Lleol yn nodi ein nodau a'n hamcanion i ddatblygu a chefnogi'r Gymraeg ymhob ysgol dros y ddegawd nesaf. Gellir gweld copi o hwn ar ein gwefan yn [Ysgolion ac Addysg: rhagor o wybodaeth am addysg](#).

Gall eich plentyn gael mynediad at addysg Gymraeg yn un o'n 9 ysgol gynradd Gymraeg yn y fwrdeistref:

[Ysgol Bodhyfryd, Wrecsam](#)

[Ysgol Bro Alun, Gwersyllt](#)

[Ysgol Bryn Tabor, Coedpoeth](#)

[Ysgol Cynddelw, Glyn Ceiriog](#)

[Ysgol I.D. Hooson, Rhosllannerchrugog](#)

[Ysgol Llanarmon, Llanarmon Dyffryn Ceiriog](#)

[Ysgol Llan-y-pwll, Borrass](#)

[Ysgol Min-y-Ddôl, Cefn Mawr](#)

[Ysgol Plas Coch, Wrecsam](#)

Mae ein hysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg yn [Ysgol Morgan Llwyd, Wrecsam](#) lle caiff pob pwnc ei addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## **Hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg a Throchi**

Mae gan yr Awdurdod Lleol wasanaeth sy'n cefnogi hwyrddyfodiaid i addysg Gymraeg a'u hysgolion. Mae'r ymyrraeth yn dechrau yn syth bin ar ôl i'r plentyn drosglwyddo i'r ysgol Gymraeg, a'r gwasanaeth yn parhau i gefnogi'r plentyn nes ei fod wedi cyrraedd lefel caffael iaith ddigonol. Mae'r rhaglen wedi bod yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd gyda'r rhan fwyaf yn parhau gyda'u haddysg Gymraeg ac yn cael hwyl dda yn eu hail iaith. Mae yna ddigon o gefnogaeth i'r plant a'u teuluoedd, a'r ysgolion, er mwyn sicrhau bod y daith yn gweithio i bawb.

O ganlyniad i'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n dymuno trosglwyddo i ysgolion Cymraeg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae'r Awdurdod wedi cynyddu a datblygu ei ddarpariaeth.

Mae ein pecyn cefnogi ysgolion cynradd yn cynnwys:

- Cymorth Estyn Allan i Hwyrddyfodiaid i'r Gymraeg yn yr ysgol nes bod y plentyn wedi cyrraedd lefel ddigonol o gaffael iaith;

- Pecyn cefnogi i athrawon a staff cefnogi;
- Y dewis i'ch plentyn fynychu ein Canolfan Iaith, 'Cynefin' er mwyn trochi eu hunain yn ddwys gyda'n tîm o swyddogion trochi profiadol cyn dychwelyd i'r ysgol a pharhau gyda chefnogaeth estyn allan;
- Pecyn cefnogi i rieni / teuluoedd a chyfle i gwrdd ag aelod o dîm Trochi'r Gymraeg i drafod y gefnogaeth rydym ni'n ei chynnig ac i ddysgu mwy am yr hyn y gallwch chi ei wneud fel rhieni/gwarcheidwaid i gefnogi eich plentyn.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch ysgol neu anfonwch neges i [trochi@wrexham.gov.uk](mailto:trochi@wrexham.gov.uk)

## Trochi yn y Gymraeg ar gyfer addysg uwchradd

Mae'r cynllun trochi yn y Gymraeg yn galluogi disgyblion i bontio o ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg i Ysgol Morgan Llwyd sy'n ysgol uwchradd Gymraeg. I'r disgyblion blwyddyn 6 hynny sy'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg ar hyn o bryd, sy'n dymuno cael addysg uwchradd cyfrwng Cymraeg, mae cymorth ar gael trwy gynllun trochi llwyddiannus yn Ysgol Morgan Llwyd, lle mae'r disgyblion yn cael eu trochi i fod yn gwbl rugl ac ymuno â dosbarthiadau prif ffrwd erbyn dechrau Blwyddyn 9. Rydym ni wedi derbyn adborth gwych gan rieni/gwarcheidwaid a phlant ac rydym ni'n gwneud yn siŵr bod ein cwrs yn cael ei ddatblygu o amgylch syniadau plant a bod eu lles wrth wraidd pob agwedd.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â'ch ysgol neu anfonwch neges i [trochi@wrexham.gov.uk](mailto:trochi@wrexham.gov.uk)

Rhagor o wybodaeth am gefnogaeth gyda'r Gymraeg i deuluoedd plant cyn oed ysgol:

- **Cymraeg i Blant**  
Gweithgareddau am ddim i rieni newydd gan ddefnyddio'r Saesneg a chyflwyno'r Cymraeg. [Cymraeg i Blant](#)
- **Ti a Fi**  
Sesiynau rhieni a babanod wedi'u cynnal gan y Mudiad Meithrin [Cylch Ti a Fi - Meithrin](#)
- **Cylch Meithrin / Dechrau'n Deg**  
Sesiynau dwy neu dwy awr a hanner. Addas i blant o 2 oed i oedran ysgol. Mae rhai grwpiau'n darparu llefydd i blant sy'n codi'n dair oed a gwasanaethau gofal estynedig.
- **Meithrinfa Dydd / Gwarchodwr Plant**  
Gofynnwch i'ch meithrinfa leol sut maen nhw'n defnyddio'r Gymraeg yn eu gweithgareddau bob dydd neu cysylltwch â [Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd Wrecsam](#) am fwy o wybodaeth

- **Sesiynau stori a chân yn y Gymraeg**

Cynhelir y rhain yn eich [llyfrgell leol](#)

- **Addysg Gymraeg yn Wrecsam**

Ewch i [www.agw.cymru](http://www.agw.cymru) gwefan addysg Gymraeg Wrecsam, i gael amrywiaeth o wybodaeth, cyngor ac adnoddau yn ymwneud ag addysg Gymraeg yn Wrecsam.



## Cymorth a gwybodaeth gyffredinol ar gyfer disgyblion a theuluoedd

### Prydau ysgol a Lluniaeth

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau:

- Bod pryd canol dydd yn cael ei ddarparu ym mhob ysgol gynradd ac ysgol arbennig gyda dewis o gyrsiau lle bo modd
- Bod darpariaeth pryd canol dydd ymhob ysgol uwchradd ar sail ffreutur gyda system brisio unigol

Bydd cyfleusterau ar gael ym mhob ysgol gynradd ac uwchradd i blant sy'n dymuno mynd â'u pryd canol dydd eu hunain.

Bydd prydau ysgol am ddim ar gael i holl ddisgyblion sydd mewn Ysgolion Cynradd o fis Medi 2023 yn rhan o raglen Llywodraeth Cymru i bob plentyn cynradd gael Prydau Ysgol am Ddim.

Os ydych chi ar incwm isel, mae'n bwysig eich bod yn gwneud cais am [Brydau Ysgol am Ddim](#) ar gyfer eich plant, hyd yn oed gyda'r ddarpariaeth ar gael i bawb, gan fod eich cymhwysra am Fudd-dal Prydau Ysgol am Ddim yn golygu bod budd-daliadau eraill ar gael i chi ac mae'n cynyddu'r cyllid ar gyfer ysgol eich plentyn.

### Grant Gwisg Ysgol / Grant Hanfodion Ysgol

Mae'r Awdurdod yn gweinyddu [Grant Hanfodion Ysgol](#) ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n darparu cymorth i deuluoedd sy'n diwallu'r meini prawf cymhwyso ar gyfer prydau ysgol am ddim, tuag at gostau prynu dillad, esgidiau ac offer ar gyfer yr ysgol. Nid yw hyn ar gael ar gyfer plant sy'n cael eu 'hamddiffyn wrth bontio' neu sy'n derbyn prydau ysgol am ddim trwy'r rhaglen Prydau Ysgol am Ddim i holl blant Ysgolion Cynradd.

### Polisi Codi Tâl a Gostyngiadau

Mae manylion ynghylch y weithdrefn i hawlio gostyngiadau ar gael gan y Pennaeth a bydd ymholiadau'n cael eu trin yn gyfrinachol. Dylid gwneud ceisiadau drwy'r Pennaeth.

## Dyddiadau'r Tymor

Gellir dod o hyd i [Dyddiadau Blwyddyn Academaidd Wrecsam](#) ar ein gwefan. Ysgolion unigol o fewn eu consortiwm fydd yn pennu dyddiadau ar gyfer hyfforddiant. Cysylltwch â'r ysgol briodol gydag unrhyw ymholiad ynglŷn â'r dyddiadau hyn.

## Dyddiadau Gadael Ysgol

Dyma'r dydd Gwener olaf ym mis Mehefin yn y flwyddyn ysgol y bydd y plentyn yn troi'n 16 ynddi. Tan y dyddiad hwnnw:

- Rhaid i rieni sicrhau bod y plentyn yn derbyn addysg yn yr ysgol neu fel arall
- Ni Awdurdod Lleol cyflogwyr gyflogi plentyn llawn-amser; ni Awdurdod Lleol darparwyr hyfforddiant ddarparu hyfforddiant llawn-amser wedi'i noddi gan y Llywodraeth

## Arholiadau a Phrofion Cyhoeddus

Cyfrifoldeb y Llywodraethwyr, yn unol â chyngor y Penaethiaid ac mewn ymgynghoriad â rhieni, yw trefnu i ymgeisio disgyblion ar gyfer arholiadau allanol. Mae rhestr o'r cyrsiau arholi a gynigir a gwybodaeth o ran canlyniadau ar gael gan bob Ysgol Uwchradd. Bydd gan y Llywodraethwyr bolisi mewn perthynas â chodi tâl am ail-sefyll arholiadau. Mae manylion pellach ar gael gan y Penaethiaid.

## Gweithdrefnau Cwyno

Os nad yw rhiant yn fodlon gyda gwasanaeth a dderbynnir gan yr ysgol, yn y lle cyntaf dylai'r rhiant gysylltu â'r Pennaeth i drafod eu pryderon. Gellir delio â nifer o bryderon yn gyflym ac yn effeithiol trwy ystyriaethau anffurfiol, yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Pennaeth a staff eraill yr ysgol.

Os fydd cwyn yn parhau heb ei ddatrys yna dylid cyfeirio'r mater i Gadeirydd y Corff Llywodraethu yn ysgrifenedig.

Mae copi o'r weithdrefn gwyno llawn ar gael yn uniongyrchol o ysgol eich plentyn.

## Gwybodaeth Gyffredinol

Gellir dod o hyd i wybodaeth ar y canlynol yn <https://www.wrexham.gov.uk> neu drwy ffonio ymholiadau cyffredinol Addysg ar 01978 298991.

- Mynediad Rhieni at Gofnodion Disgyblion
- Y Cyfnod Sylfaen
- Y Cwricwlwm Cenedlaethol
- Cyrff Llywodraethu Ysgolion
- Cwynion ynghylch y Cwricwlwm a Materion Cysylltiedig
- Trefniadau Gofal Plant
- Y Cynllun Ysgolion Iach yn Wrecsam
- Amddiffyn Plant
- Trwyddedau Diddanu neu Perfformio a Chyflogaeth Plant
- Addysg yn y Cartref
- Plant yn yr Ysbyty
- Gwasanaeth Iechyd Plant



## Polisiau Derbyn Ysgol Enwadol 2025

Y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn ar gyfer ysgolion sefydliadol ac ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir. Mae gan yr ysgolion hynny eu Polisiau Derbyn unigol a byddant yn arfer eu meini prawf eu hunain ar gyfer gordanysgrifio wrth roi ceisiadau yn nhrefn blaenoriaeth, os derbyniwyd mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael.

Efallai y bydd yr ysgolion hyn yn gofyn ichi lenwi [Ffurflen Gwybodaeth Atodol](#) a/neu ffurflen gais ar wahân sy'n benodol i'r ysgol. Sicrhewch eich bod yn darllen eu Polisiau Derbyn unigol yn fanwl er mwyn ichi fodloni holl ofynion eu prosesau ymgeisio, gan na chaiff eich cais ei ystyried nes bod yr holl ffurflenni wedi'u llenwi.

Mae Polisi Derbyniadau pob un o'r ysgolion hyn i'w weld yn yr adran berthnasol ac ar wefan yr ysgol dan sylw.

### Ysgolion Cynradd Catholig

- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne, Wrecsam
- Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Fair, Wrecsam

### Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru

- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd
- Ysgol Gynradd Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Bronington
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru y Mwynglawdd
- Ysgol Gynradd Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Chad
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn
- Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwbon
- Ysgol Gynradd Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Paul

### Uwchradd

- Ysgol Maelor, Penley
- Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph

## Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol A Gynortwyir Y Santes Anne

### Polisi derbyn 2025

Mae'r polisi derbyn wedi cael ei fabwysiadu'n ffurfiol gan gorff llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne, Wrecsam. Fel ysgol wirfoddol a gynorthwyir, y corff llywodraethu yw'r awdurdod derbyn, ac mae'n gyfrifol am drefniadau derbyn yr ysgol. Mae'n cael ei arwain gan y gyfraith a chan ei ddy-letsywydd a'i gyfrifoldebau i'r Esgob a'r Ymddiriedolwyr, i gadw cymeriad Catholig yr ysgol a chynnal darpariaeth gwaith yr Eglwys mewn addysg.

Mae Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne yn Esgobaeth Wrecsam ac mae'n gwasanaethu plwyf y Santes Anne. Fel ysgol Eglwys, rydym yn gofyn i bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma i gydnabod a pharchu'r ethos a'r addysg nodedig a ddarperir gan yr ysgol a'i phwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio ar hawl rhieni nad ydynt o ffydd yr ysgol hon i wneud cais am le yma.

Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Y nifer derbyn sydd wedi'i gyhoeddi ar gyfer yr ysgol yw 24 ar gyfer Meithrin, Derbyn a gweddill yr ysgol. Mae Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn mynnu bod Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu yn derbyn disgyblion hyd at nifer derbyn disgyblion yr ysgol. Gellir cael ffurflenni derbyn o'r ysgol a gellir hefyd eu cwblhau ar-lein. Dilynr amserlen dderbyn yr Awdurdod Lleol ar gyfer dosbarthu, ystyried a dychwelyd y ffurflenni hyn.

### Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgol

Rhaid gwneud pob cais am le yn Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne ar ffurflenni priodol yr Awdurdod Lleol ar-lein, a'u dychwelyd i'r Awdurdod Lleol ddim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd. Ystyrir y cais gan banel Derbyn y Corff Llywodraethu.

### Ceisiadau Hwyr

Bydd yr ysgol yn ystyried ceisiadau hwyr mewn achosion lle rhoddir rheswm digonol. Mae'r rhain yn cynnwys amgylchiadau arbennig megis pan fo teulu newydd symud i'r ardal, neu'n dychwelyd o dramor, ar yr amod bod ceisiadau'n cael eu derbyn cyn i leoedd gael eu cynnig.

Bydd rhieni'n cael hysbysiad ysgrifenedig o'r holl geisiadau derbyn.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r adran Feithrin, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair. Hynny yw, gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair erbyn 31 Awst ym mis Medi. Nid yw dosbarth meithrin yn ddarpariaeth statudol; nid yw cael lle yn

y dosbarth Meithrin yn gwarantu lle yn y dosbarth Derbyn; os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i'r ffurflen gais briodol ar gyfer derbyn i'r dosbarth Derbyn gael ei chyflwyno o fewn amserlen y cylch derbyn blynyddol.

Caiff disgyblion eu derbyn i'r dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bump, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n bedair erbyn 31 Awst ym mis Medi. Gall rhiant ohirio gyrru ei blentyn i'r ysgol hyd at y tymor yn dilyn ei ben-blwydd yn bump oed.

### **Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi bod dan ofal yn y gorffennol.**

Mae plant sy'n derbyn gofal ac a fu'n derbyn gofal yn flaenoriaeth. Os bydd gordanysgrifio, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn unrhyw rai eraill, heblaw y rhai hynny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig / Cynllun Datblygu Unigol sy'n enwi ein hysgol ni.

Ni fydd yr ysgol yn gwahaniaethu rhwng bechgyn a merched, nac yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig. Bydd plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â [chanllawiau Llywodraeth Cymru i gefnogi plant a phobl ifanc sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr](#).

### **Meini Prawf Gormod o Geisiadau**

Mae'r Llywodraethwyr wedi cytuno os bydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, y bydd y meini prawf canlynol yn cael rhoi ar waith yn y drefn a nodir isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

1. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol ac sydd wedi'u bedyddio yn Gatholig
2. Plant eraill sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
3. Plant sydd wedi'u bedyddio'n Gatholig y mae eu cyfeiriad cartref o fewn ffiniau'r plwyf a enwir ar gyfer yr ysgol. Mae map yn dangos ffiniau plwyf y Santes Anne ar gael yn yr Ysgol.
4. Plant wedi'u bedyddio'n Gatholig y mae eu cyfeiriad cartref y tu allan i'r plwyf a wasanaethir gan yr ysgol ond mai hon yw eu hysgol Gatholig agosaf
5. Plant a fedyddiwyd neu sy'n aelodau ymroddedig o Eglwysi Cristnogol eraill
6. Plant fydd â brawd neu chwaer hŷn yn mynychu'r ysgol ym mis Medi 2024; felly nid ym Mlwyddyn 6 ([gweler y diffiniad o frawd neu chwaer yn adran ddiweddarach y polisi](#))

7. Plant o draddodiadau ffydd eraill y mae eu rhieni yn dymuno iddynt gael addysg Ysgol Eglwysig
8. Disgyblion y mae eu rhieni yn ceisio addysg ffydd iddynt mewn ysgol Gatholig

Bydd pob cais yn cael ei ystyried gan y Panel Derbyniadau.

**Nodwch, bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi eu henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu derbyn cyn defnyddio'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.**

Bydd llywodraethwyr yn ceisio cadarnhau'r manylion hyn gyda'r offeiriad lleol ar [ffurflen atodol](#) sydd i'w gweld ynghlwm i'r polisi hwn, sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol o'r ysgol.

Ym mhob categori, Mae'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol yn cael blaenoriaeth uwch. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo trwy ddefnyddio System Mapio Daearyddol yr Awdurdod Lleol sy'n mesur y pellter o gyfeiriad y cartref at yr ysgol yn gywir ar hyd y llwybr cerdded mwyaf diogel. Os yw'r pellteroedd yn gyfartal, fel y cyfrifir gan y system GIS, er enghraifft fflat mewn bloc o anheddau gyda'r un fynedfa drws ffrynt, byddwn yn gwahaniaethu yn ôl lefel y llawr.

### **Diffiniadau a ddefnyddir yn y polisi**

'**Rhieni**' yn cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant dros blentyn fel y nodir yn [Neddf Plant 1989](#). Lle bo cyfrifoldeb 'ar y cyd' dros blentyn, y person y bernir iddynt fod yn gyfrifol am gwblhau'r cais yw'r person sy'n derbyn Budd-dal Plant a bydd cyfeiriad y person hwnnw'n cael ei ddefnyddio i ddibenion derbyn.

### **Cyfrifoldeb Rhiant (o'r canllawiau cyfredol)**

Oni bai y penderfynir fel arall gan orchymyn llys:

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant yn awtomatig
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant am blentyn os yw'r tad yn briod â'r fam pan gafodd y plentyn ei eni. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad / gwahanu / ailbriodi hyd yn oed os yw'r plentyn yn byw ar wahân iddynt.
- Mae gan dadau dibriod gyfrifoldeb rhiant lle bo'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (dyma newid i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau dibriod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill gael cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant trwy

orchymyn preswyllo, eu penodi'n warcheidwad; eu henwi mewn gorchymyn amddiffyn brys (yn gyfyngedig i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu unigolyn ifanc); neu drwy fabwysiadu.

Mewn achos o anghydfod rhwng rhieni, lle mae mwy nag un rhiant â chyfrifoldeb rhiant a'u bod yn anghytuno ynglŷn â gwneud cais i ysgol benodol. Bydd y panel Derbyniadau yn cynghori'r rhieni i gytuno cyn ymgeisio i'r ysgol.

### **Diffiniad o frawd neu chwaer**

Ar gyfer ceisiadau a wneir yn y cylch derbyn arferol, brawd neu chwaer berthnasol yw plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn a fabwysiadwyd sy'n byw yn yr un uned deuluol, ar yr un aelwyd teuluol a'r un cyfeiriad, ac sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd yn unrhyw grwp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n mynychu'r ysgol a ffafriwyd yn unrhyw grwp blwyddyn ac eithrio'r flwyddyn olaf hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd, waeth ble maen nhw'n byw.

Ni fydd plant sy'n byw ar yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### **'Preswyllo' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth ac a bennir ar sail lle y telir 'Budd-dal Plant'. Mewn achosion lle mae amheuaeth ynglŷn â'r cyfeiriad cartref neu pan fo plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd wedi gwahanu) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid rhoi tystiolaeth o'r cyfeiriad cartref i'r ysgol i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

- llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau bod cyfnewid Contractau wedi digwydd ar bryniant eiddo; neu
- gopi o'r Cytundeb Rhent presennol, wedi'i lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
- yn achos personél sy'n gwasanaethu yn Lluoedd Arfog E.M. ar hyn o bryd, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad cychwyn eu gwasanaeth gan y Weinyddiaeth Amddiffyn, y Swyddfa Dramor a Chymanwlad neu Bencadlys Cyfathrebu'r Llywodraeth.

## Gefeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog

Pan fo'r Corff Llywodraethu yn ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill ar gyfer un lle sy'n weddill, bydd y teulu'n cael cynnig y lle a gallant ddewis (a) ei dderbyn ar gyfer un brawd neu chwaer, pwy bynnag y byddant yn ei ddewis neu (b) wrthod y lle, a bydd yn cael ei gynnig i'r person nesaf yn y dyraniad ar ôl y gefeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Sylwch na fydd brodyr a chwiorydd genedigaethau lluosog yn cael eu blaenoriaethu i gael eu derbyn ac eithrio fel cysylltiad teuluol ar ôl i'r teulu dderbyn y lle(oedd) a gynigiwyd i un o'r efeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Ond bydd y panel Derbyniadau yn ymdrechu i gadw efeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog gyda'i gilydd pan fo hynny'n bosibl.

## Rhestr Aros

Bydd rhestr aros yn cael ei chadw os bydd gan yr ysgol ormod o geisiadau. Ar ôl dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais ynddi. Os daw lleoedd ychwanegol yn rhydd tra bo'r rhestr aros ar waith byddant yn cael eu dyrannu i blant sydd ar y rhestr aros ar sail y meini prawf uchod ar gyfer gormod o geisiadau.

## Sut fydd ymlyniad crefyddol yn cael ei brofi

### Diffiniad o 'Gatholig'

Mae'r rhain yn blant sydd wedi eu bedyddio'n Gatholig neu wedi cael eu derbyn yn ffurfiol i'r Eglwys Gatholig. Mae'n rhaid i bob ymgeisydd sy'n ceisio mynediad dan feini prawf 3 neu 4 ddarparu tystiolaeth bod y plentyn wedi cael ei fedyddio yn Gatholig neu wedi cael ei dderbyn i'r Eglwys Gatholig. Bydd tystysgrif bedydd neu lythyr gan eu hofffeiriad yn cadarnhau eu bod wedi cael eu bedyddio neu eu derbyn yn ddigon.

## Apeliadau derbyn

Nid yw addysg Feithrin yn ddarpariaeth statudol ac nid oes gan rieni hawl i apelio o dan [Ddeddf Addysg 1980](#) os nad ydynt yn llwyddo i gael lle. Nid yw cael lle yn y dosbarth Meithrin yn gwarantu derbyn i'r ysgol.

Os nad ydym yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, gall rhieni ddefnyddio'r hawl i apelio. Os byddwch yn arfer yr hawl honno, rhaid anfon yr apêl at Glerc Llywodraethwyr yr ysgol.

Bydd yr apêl yn cael ei hystyried gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a enwebwyd gan yr Esgobaeth yn unol â chod ymarfer [Llywodraeth Cymru ar Apeliadau Derbyn ysgolion](#). Yna, bydd y Panel Apeliadau yn cyfarfod i ystyried yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle i'w plant/plentyn yn ein hysgol. Mae'r penderfyniad hwn yn derfynol o safbwynt pawb dan sylw.

## **Adolygu**

Yn unol â Chynllun Gwella'r Ysgol, bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu pob dwy flynedd neu'n gynharach yn sgil unrhyw newidiadau mewn deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol.

## Ysgol Gynradd Gatholig Wirfoddol a Gynorthwyir y Santes Fair

### Polisi Derbyn: Meithrin 2025

Mae Polisi Derbyn yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth addysg cynradd ac uwchradd sydd mewn grym, ac yn arbennig:

- **Cod Derbyn i Ysgolion**  
Cod Statudol 005/2013 paragraffau 1.9 a 1.10; 2.59 a 2.60 yn unig
- **Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion**  
Cod Statudol 001/2023
- **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988**  
hawl dewis y rhieni (a86(1)) a'r hawl i apelio
- **Y Ddeddf Addysg 2002**  
diddymu'r hawl i gyfyngu mynediad yn seiliedig ar gyfran o blant o'r tu allan i'r grŵp ffydd
- **Y Ddeddf Addysg 2005**  
blaenoriaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- **Y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44)**  
gwaharddiad ar gyfsweld rhieni a phlant
- **Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006**

Cyhoeddir canllawiau anstatudol hefyd gan Esgobaeth Wrecsam.

Mae'r gyfraith yng Nghymru yn nodi nad yw'n ofynnol i blentyn ddechrau mewn ysgol nes dechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Nid yw derbyn plentyn i'r dosbarth Meithrin yn unol â'r polisi hwn yn rhoi hawl i blentyn gael lle yn y Dosbarth Derbyn ym mis Medi 2026, bydd trefniadau ar wahân yn eu lle ar gyfer hynny.

Cynigir darpariaeth feithrin yn Ysgol y Santes Fair yn seiliedig ar sesiwn fore am hanner diwrnod (dwy awr a hanner y dydd), pum diwrnod yr wythnos. Derbynnir plant sy'n dair oed i'r Dosbarth Meithrin ym mis Medi'r Flwyddyn Ysgol lle byddant yn dathlu eu pen-blwydd yn bedair oed.

Mae trefniadau yn y ddeddfwriaeth i ymdrin â cheisiadau yn ystod y flwyddyn i ddosbarth Meithrin. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu'n ystyried y rhain yn unigol.

Bydd yr Ysgol yn derbyn 41 o blant i'r Dosbarth Meithrin neu ddosbarth cymysg Meithrin / Derbyn heb unrhyw amodau a waeth beth fo'u crefydd. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am le yn yr ysgol



ar y ffurflenni Awdurdod Lleol priodol a'u dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd fan bellaf. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid dychwelyd ffurflenni 'Gwybodaeth Ategol' yr ysgol ddim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd.

### **Meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer y lleoedd sydd ar gael ar gyfer y Dosbarth Meithrin**

Os yw nifer yr ymgeiswyr yn rhagori ar y Nifer Derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodir gan y Corff Llywodraethu yn cymhwyso'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Catholig wedi'u Bedyddio sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal cyhoeddus yn flaenorol
2. Plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol nad ydynt yn Gatholig
3. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn. Gallai hyn fod yn frawd neu chwaer gyflawn neu llysfrawd neu lyschwaer ac mae'n cynnwys brodyr a chwiorydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu. Bydd y trefniadau derbyn yn sicrhau na fydd plant genedigaeth luosog yn cael eu gwahanu.
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio o fewn plwyfi y Santes Fair Wrecsam, Llai (gyda'r Orsedd) a Rhiwabon (gyda'r Waun a Llangollen); plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae map o ardal tref Wrecsam sy'n rhan o Blwyf y Santes Fair ar gael ar gais gan yr Ysgol.
5. Gall yr Ysgol gwrdd ag anghenion cymdeithasol a bugeiliol plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion yn well

*Ar gyfer plant Catholig yng nghategoriâu 1, 3 a 4 bydd angen i'r Panel Derbyn weld eu Tystysgrif Geni gwreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen benodol gan Offeiriad y Plwyf.*

*Ar gyfer plant yng Nghategori 5, bydd y Panel Derbyniadau angen gweld tystiolaeth ategol gan feddyg, gweithiwr cymdeithasol neu'r Awdurdod Lleol ynglŷn â pham mai dyma'r ysgol fwyaf addas ar gyfer y plentyn.*

6. Plant o enwadau Cristnogol eraill, y mae gan eu rhieni ddyhead gwirioneddol iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig, ac yn llwyr gefnogi yr ethos Gatholig
- Bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni gwreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen benodol gan Offeiriad y Plwyf neu Weinidog yr Efengyl.*
7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol. Bydd angen tysteb ysgrifenedig gan Weinidog yr Efengyl / arweinydd ffydd perthnasol.

## 8. Plant y mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn i'r ysgol eu derbyn

Os bydd yna fwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw rai o'r categorïau uchod, bydd y Panel Derbyn yn cynnig lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir hyn yn ôl y pellter byrraf rhwng y cartref neu'r fflat/ cyfadeilad rhandy a giât agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus, ac fe'i cadarnheir gan y gronfa ddata a ddefnyddir gan Adran Gludiant yr Awdurdod Lleol.

Pan na ellir cynnig lle oherwydd bod mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael bydd yr Ysgol yn cynnal rhestr aros tan ddiwedd mis Medi.

### **Gweithdrefnau ar gyfer Blwyddyn Dderbyn 2025: Meithrin**

1. Bydd yr ysgol yn hysbysebu eu dyddiadau derbyn ym mhob plwyf y mae'n ei wasanaethu ym mis Medi 2024
2. Gellir cael ffurflenni derbyn/mynegi ffafriaeth a'r ffurflen 'Gwybodaeth Ategol' oddi wrth yr offeiriad/gweinidog y plwyf ar gyfer 2025 oddi ar wefan CBSW ym mis Ionawr 2025. Dylid llenwi'r cais ar-lein a dylid dychwelyd y ffurflenni gwybodaeth ategol i'r ysgol ddim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd.
3. Bydd yr Ysgol yn trefnu ymweliadau i rieni sydd wedi dewis y Santes Fair: ar gyfer rhieni nad ydynt yn Gatholigion bydd hyn yn cynnwys cyflwyniad i natur Gatholig yr ysgol, ei hethos a darpariaeth y cwricwlwm
4. Bydd rhieni'n cael gwybod erbyn 6 Mai 2025 a oes lle wedi'i ddyrannu ai peidio
5. Os yw'r cais yn aflwyddiannus, nid oes gan y rhieni hawl i apelio yn erbyn gwrthod cynnig lle

### **Nodiadau**

- Bydd angen i'r Corff Llywodraethu gadarnhau y trefniadau derbyn yn 2025 erbyn 15 Ebrill 2024
- Mae'r Corff Llywodraethu eisoes wedi ymgynghori yn ffurfiol ar ei bolisi ar gyfer Derbyniadau yn 2018 gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne Wrecsam fel Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol, a gydag Awdurdodau Lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, ynghyd ag Esgobaeth Wrecsam.
- Cododd yr ymgynghoriad materion o fanylion gan yr Awdurdod Lleol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu wneud newidiadau mân i'r polisi

- Mae'r Polisi Derbyn ar gyfer 2025 yn union fel yr un a oedd yn flaenorol yn destun ymgynghoriad a bydd y Corff Llywodraethu felly yn penderfynu ar ei drefniadau Derbyn ar gyfer 2025 cyn 15 Ebrill 2024 a heb yr angen am ymgynghori pellach
- Bydd angen ystyried a phennu trefniadau ar gyfer mis Medi 2026 ac ar ôl hynny gyda'r un broses ac amserlen (yn amodol ar unrhyw amrywiad statudol). Mae'r Corff Llywodraethu wedi cytuno y bydd hon yn eitem sefydlog o Fusnes Llywodraethwyr yng nghyfarfod Tymor yr Hydref bob blwyddyn ysgol. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu'n ffurfiol a yw Ymgynghori yn unol â'r Rheoliadau yn briodol ai peidio.

### **Polisi Derbyn: Dosbarth Derbyn 2025**

Mae Polisi Derbyn yr ysgol yn seiliedig ar ofynion y ddeddfwriaeth addysg cynradd ac uwchradd sydd mewn grym, ac yn arbennig:

- **Cod Derbyn i Ysgolion**  
Cod Statudol 005/2013 paragraffau 1.9 a 1.10; 2.59 a 2.60 yn unig
- **Cod Apeliadau Derbyn i Ysgolion**  
Cod Statudol 001/2023
- **Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1988**  
hawl dewis y rhieni (a86(1)) a'r hawl i apelio
- **Y Ddeddf Addysg 2002**  
diddymu'r hawl i gyfyngu mynediad yn seiliedig ar gyfran o blant o'r tu allan i'r grŵp ffydd
- **Y Ddeddf Addysg 2005**  
blaenoriaeth ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal
- **Y Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (adran 44)**  
gwaharddiad ar gyfweld rhieni a phlant
- **Rheoliadau Addysg (Penderfynu ar Drefniadau Derbyn) (Cymru) 2006**

Cyhoeddir canllawiau anstatudol hefyd gan Esgobaeth Wrecsam.

Mae'r gyfraith yng Nghymru yn nodi nad yw'n ofynnol i blentyn ddechrau mewn ysgol nes dechrau'r tymor yn dilyn pen-blwydd y plentyn yn bump oed. Yn Ysgol y Santes Fair bydd plant pedair oed yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn ym mis Medi yn y Flwyddyn Ysgol lle byddant yn dathlu eu penblwydd yn bump oed. Y dosbarth derbyn yw'r flwyddyn dderbyn arferol i'r ysgol.

Mae trefniadau yn y ddeddfwriaeth i ymdrin â cheisiadau yn ystod y flwyddyn i ddosbarth derbyn a grwpiau blwyddyn eraill. Bydd Panel Derbyn y Corff Llywodraethu yn ystyried y rhain yn unigol ac yn ymateb o fewn 10 diwrnod gwaith o'u derbyn.

Mae trefniadau derbyn ar wahân ar gyfer y dosbarth meithrin ac ni fydd hyn yn rhoi hawl i blentyn gael lle yn y dosbarth derbyn.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi gosod y Rhif Derbyn drwy fformiwla i 41. Bydd y Corff Llywodraethu yn derbyn hyd at y nifer hynny heb unrhyw amodau, a waeth beth fo'u crefydd. Mae'n rhaid cyflwyno ceisiadau am le yn yr ysgol ar y ffurflenni Awdurdod Lleol priodol a'u dychwelyd i'r ysgol erbyn y dyddiad a gyhoeddwyd fan bellaf. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid dychwelyd ffurflenni 'Gwybodaeth Ategol' yr ysgol ddim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd.

Os yw'r ysgol wedi'i henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (CPU), mae gan y Corff Llywodraethu ddyletswydd i dderbyn y plentyn.

Os yw'r Corff Llywodraethu, fel Awdurdod Derbyn, wedi cynnig lle ar sail cais twyllodrus neu sy'n fwriadol yn camarwain gan riant, yna bydd y cynnig yn cael ei dynnu'n ôl.

Pan fo lle wedi'i dderbyn drwy dwyll a bod y plentyn wedi dechrau yn yr ysgol, bydd hyd eu cyfnod yn yr ysgol, yn cael ei ystyried cyn gwneud unrhyw benderfyniad i dynnu eu lle yn ôl.

### **Meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer Dosbarth Derbyn**

Os yw nifer yr ymgeiswyr yn rhagori ar y Nifer Derbyn, bydd y Panel Derbyn a benodir gan y Corff Llywodraethu yn cymhwyso'r meini prawf canlynol yn nhrefn blaenoriaeth:

1. Plant Catholig wedi'u Bedyddio sy'n derbyn gofal neu a oedd yn derbyn gofal cyhoeddus yn flaenorol
2. Plant sy'n derbyn gofal neu blant oedd yn derbyn gofal yn flaenorol nad ydynt yn Gatholig
3. Plant sydd â brawd neu chwaer yn yr ysgol ar y dyddiad derbyn. Gallai hyn fod yn frawd neu chwaer gyflawn neu llysfrawd neu lyschwaer ac mae'n cynnwys brodyr a chwiorydd wedi'u mabwysiadu neu eu maethu. Bydd y trefniadau derbyn yn sicrhau na fydd plant genedigaeth luosog yn cael eu gwahanu.
4. Plant Catholig wedi'u bedyddio o fewn plwyfi y Santes Fair Wrecsam, Llai (gyda'r Orsedd) a Rhiwabon (gyda'r Waun a Llangollen); plwyfi y mae'r ysgol yn eu gwasanaethu. Mae map o ardal tref Wrecsam sy'n rhan o Blwyf y Santes Fair ar gael ar gais gan yr Ysgol.

5. Gall yr Ysgol gwrdd ag anghenion cymdeithasol a bugeiliol plant wedi'u bedyddio'n Gatholigion yn well

*Ar gyfer plant Catholig yng nghategoriâu 1, 3 a 4 bydd angen i'r Panel Derbyn weld eu Tystysgrif Geni gwreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen benodol gan Offeiriad y Plwyf.*

*Ar gyfer plant yng Nghategori 5, bydd y Panel Derbyniadau angen gweld tystiolaeth ategol gan feddyg, gweithiwr cymdeithasol neu'r Awdurdod Lleol ynglŷn â pham mai dyma'r ysgol fwyaf addas ar gyfer y plentyn.*

6. Plant o enwadau Cristnogol eraill, y mae gan eu rhieni ddyhead gwirioneddol iddynt gael eu haddysgu mewn ysgol Gatholig, ac yn llwyr gefnogi yr ethos Gatholig  
*Bydd angen i'r Panel Derbyn weld Tystysgrif Geni gwreiddiol a Thystysgrif Bedydd, ynghyd â geirda ysgrifenedig ar y ffurflen benodol gan Offeiriad y Plwyf neu Weinidog yr Efengyl.*
7. Plant o ffydd arall y mae eu rhieni yn dangos ymrwymiad i ethos yr ysgol. Bydd angen tysteb ysgrifenedig gan Weinidog yr Efengyl / arweinydd ffydd perthnasol
8. Plant y mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn i'r ysgol eu derbyn

Os bydd yna fwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn unrhyw rai o'r categorïau uchod, bydd y Panel Derbyn yn cynnig lleoedd i'r plant sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mesurir hyn yn ôl y pellter byrraf rhwng y cartref neu'r fflat/ cyfadeilad rhandy a giât agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio priffyrdd cyhoeddus, ac fe'i cadarnheir gan y gronfa ddata a ddefnyddir gan Adran Gludiant yr Awdurdod Lleol.

Pan na ellir cynnig lle oherwydd bod mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael bydd yr Ysgol yn cynnal rhestr aros tan ddiwedd mis Medi.

Er bod deddfwriaeth yn nodi na ddylid cael dosbarthiadau gyda dros 30 o blant, mae canllawiau gan Lywodraeth Cymru ar gyfer blwyddyn dderbyn 2018 a thu hwnt yn caniatáu eithriadau ychwanegol i'r gofyniad mewn perthynas â:

- Phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- Plant personél y lluoedd arfog
- Gefeilliaid / plant genedigaethau lluosog

## Gweithdrefnau ar gyfer Blwyddyn Dderbyn 2025: Dosbarth Derbyn

1. Bydd yr ysgol yn hysbysebu eu dyddiadau derbyn ym mhob plwyf y mae'n ei wasanaethu ym mis Medi 2024
2. Gellir cael ffurflenni derbyn/mynegi ffafriaeth a'r ffurflen 'Gwybodaeth Ategol' oddi wrth yr offeiriad/gweinidog y plwyf ar gyfer 2025 oddi ar wefan CBSW ym mis Ionawr 2025. Dylid llenwi'r cais ar-lein a dylid dychwelyd y ffurflenni gwybodaeth ategol i'r ysgol ddim hwyrach na'r dyddiad a gyhoeddwyd.
3. Bydd yr Ysgol yn trefnu ymweliadau i rieni sydd wedi dewis y Santes Fair: ar gyfer rhieni nad ydynt yn Gatholigion bydd hyn yn cynnwys cyflwyniad i natur Gatholig yr ysgol, ei hethos a darpariaeth y cwricwlwm
4. Bydd rhieni'n cael gwybod erbyn 6 Mai 2025 a oes lle wedi'i ddyrannu ai peidio
5. Os yw'r cais yn aflwyddiannus, mae gan y rhieni hawl i apelio i Banel Apelio Annibynnol. Os na fu modd dyrannu lle i blentyn, bydd rhieni'n cael gwybod am yr hawl hwn yn y llythyr penderfyniad.
6. Gofynnir i rieni sy'n dymuno apelio gysylltu â Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol yn gyntaf a bydd yntau'n egluro sut y gallant gysylltu â'r Panel Apelio Annibynnol
7. Mae'n rhaid cyflwyno unrhyw apêl yn ysgrifenedig ddim mwy na 20 diwrnod gwaith ar ôl derbyn y llythyr dyrannu. Bydd apeliadau'n cael eu clywed o fewn 30 diwrnod ysgol o'r dyddiad cau a nodwyd ar gyfer derbyn apeliadau.

Pan na ellir cynnig lle oherwydd bod mwy o geisiadau na'r lleoedd sydd ar gael bydd yr Ysgol yn cynnal rhestr aros tan ddiwedd mis Medi.

### Nodiadau

- Bydd angen i'r Corff Llywodraethu gadarnhau y trefniadau derbyn yn 2025 erbyn 15 Ebrill 2024
- Mae'r Corff Llywodraethu eisoes wedi ymgynghori yn ffurfiol ar ei bolisi ar gyfer Derbyniadau yn 2019 gyda Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Gatholig y Santes Anne Wrecsam fel Awdurdod Derbyn ar gyfer yr ysgol, a gydag Awdurdodau Lleol Wrecsam, Sir y Fflint a Sir Ddinbych, ynghyd ag Esgobaeth Wrecsam
- Cododd yr ymgynghoriad materion o fanylion gan yr Awdurdod Lleol a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu wneud newidiadau mân i'r polisi
- Mae'r Polisi Derbyn ar gyfer 2025 yn union fel yr un a oedd yn flaenorol yn destun

ymgyngoriad a bydd y Corff Llywodraethu felly yn penderfynu ar ei drefniadau Derbyn ar gyfer 2025 cyn 15 Ebrill 2024 a heb yr angen am ymgynghori pellach

- Rhaid i'r Corff Llywodraethu fel Awdurdod Derbyn anfon copi o'i drefniadau derbyn wedi'u penderfynu i'r Awdurdod Lleol erbyn 1 Mehefin 2024 i ganiatáu iddynt gwblhau prosiectws cyfansawdd
- Bydd angen ystyried a phennu trefniadau ar gyfer mis Medi 2025 ac ar ôl hynny gyda'r un broses ac amserlen (yn amodol ar unrhyw amrywiad statudol). Mae'r Corff Llywodraethu wedi cytuno y bydd hon yn eitem sefydlog o Fusnes Llywodraethwyr yng nghyfarfod Tymor yr Hydref bob blwyddyn ysgol. Fel rhan o'r adolygiad blynyddol hwn, bydd y Corff Llywodraethu yn penderfynu'n ffurfiol a yw Ymgynghori yn unol â'r Rheoliadau yn briodol ai peidio.

## Ysgolion Cynradd Gwirfoddol a Gynorthwyr gan yr Eglwys yng Nghymru: Polisi Derbyn Cyffredinol 2025

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru, y Corff Llywodraethu yw'r awdurdod derbyn. Mae holl Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cytuno i ddefnyddio'r polisi cyffredin canlynol, gyda gwybodaeth ychwanegol o ran ysgolion unigol (e.e. meini prawf gordanysgrifiad, niferoedd derbyn) sydd i'w gweld isod.

### Polisi Derbyn Cyffredinol 2025

Mae (Enw'r Ysgol) yn derbyn disgyblion rhwng 3 a 11 mlwydd oed.

Fel Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr gan yr Eglwys yng Nghymru, mae'r pwyllgor derbyniadau a sefydlwyd gan gorff llywodraethu yr Ysgol yn gyfrifol am dderbyn disgyblion. Gellir gwneud ceisiadau ar-lein yn ['Derbyniadau Ysgol'](#). Gellir derbyn ffurflenni cais papur gan Llyfregell Wrecsam, Ffordd Rhosddu, Wrecsam, LL11 1AU ar gyfer y rhieni hynny sydd heb gyfeiriad e-bost.

### Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgol

Dilynir [amserlen dderbyn](#) yr Awdurdod Lleol (ALI) ar gyfer prosesu ceisiadau. Gweler yr amserlen gyhoeddedig ar [Wefan Derbyniadau Ysgol](#).

### Anghenion Dysgu Ychwanegol / Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol

O fis Medi 2021 ymlaen, bydd ein hysgol yn gweithredu gofynion Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. Mae'r newidiadau sydd yn y ddeddfwriaeth hon yn cynnwys newid mewn terminoleg o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) i Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Gellir diwallu anghenion y mwyafrif helaeth o ddisgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gan ysgolion prif ffrwd drwy weithredu strategaethau priodol, ymyriadau a rhaglenni sydd wedi eu gwahaniaethu a'u targedu'n ofalus, ac sydd wedi eu darparu gan staff ysgol. Gall asiantaethau allanol gefnogi ysgolion i weithredu'r ymyriadau sydd wedi eu targedu ar gyfer rhai dysgwyr.

Ar gyfer canran fechan iawn o ddysgwyr, bydd eu Anghenion Dysgu Ychwanegol o bosib yn cwrdd â gofynion amgylchiadau eithriadol y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol ac felly angen mynediad i ddarpariaeth arbenigol. Mae mynediad i ddarpariaeth arbenigol yn cael ei bennu trwy Banel Ymgynnwys yr Awdurdod Lleol.



I ddysgwyr sy'n mynd trwy asesiad o'u Anghenion Dysgu Ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol mae'n bwysig fod rhieni yn dal i wneud cais am leoliad prif ffrwd trwy'r weithdrefn mynediad arferol.

Dylai rhieni sy'n dymuno cael rhagor o gyngor a gwybodaeth ynglŷn ag Anghenion Dysgu Ychwanegol gysylltu â'r Gwasanaeth Cynhwysiant trwy [ALN@wrexham.gov.uk](mailto:ALN@wrexham.gov.uk) (Ffôn: 01978 295498/5499).

Mae rhieni gyda phlant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol yn gallu cael mynediad i gyngor, arweiniad a chefnogaeth annibynnol trwy gysylltu â'r Gwasanaethau Partneriaethau Rhieni wedi'u darparu gan SNAP Cymru trwy 0808 801 0608 (Llun i Gwener, 9.30am i 4.30pm) [helpline@snapcymru.org](mailto:helpline@snapcymru.org) neu Gwefan [SNAP cymru](http://SNAP.cymru).

## Derbyn i'r Dosbarth Derbyn

Mae disgyblion yn cael eu derbyn i'r Dosbarth Derbyn yn y flwyddyn academaidd y byddant yn bump h.y. gall plentyn sy'n bedair oed erbyn 31 Awst gael eu derbyn ym mis Medi. Ar ôl i le yn y dosbarth derbyn gael ei gynnig a'i dderbyn, gall y rhieni ohirio lle eu plentyn tan ddechrau'r tymor ar ôl pen-blwydd y plentyn yn 5. Ni Awdurdod Lleol y rhieni ohirio mynediad y tu hwnt i hyn, neu y tu hwnt i'r flwyddyn academaidd y derbyniwyd y cais gwreiddiol ar ei gyfer.

Mae [Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#) yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu dderbyn disgyblion hyd at nifer derbyn yr ysgol. Mae'r nifer derbyn yn golygu nifer y plant y gellir eu derbyn ym mhob grŵp blwyddyn yn ystod blwyddyn yr ysgol ac yn cael ei gyfrifo gan ddefnyddio'r asesiad capasiti yn nogfen ganllaw Llywodraeth Cymru '[Mesur Capasiti Ysgolion yng Nghymru](#).' Mae'r Nifer Derbyn ar gyfer ein hysgol i'w weld yn y rhestr isod.

Mae plant sy'n derbyn gofal ac a fu'n derbyn gofal yn flaenoriaeth. Os bydd gordanysgrifio, bydd y plant hyn yn cael eu derbyn cyn unrhyw rai eraill, heblaw y rhai hynny sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig / Cynllun Datblygu Unigol sy'n enwi ein hysgol ni.

Bydd plant o gymunedau Sipsiwn a Theithwyr neu grwpiau teithio yn cael eu trin yn unol â [Chod Ymarfer Derbyniadau Ysgol 2013](#) a chanllawiau Llywodraeth Cymru.

Ni fydd ein hysgol yn gwahaniaethu ar sail rhyw, nac yn erbyn ymgeiswyr ar sail hil, lliw, cenedligrwydd neu darddiad cenedlaethol neu ethnig.

Bydd pob ymgeisydd yn cael eu derbyn i'r ysgol oni bai bod nifer y ceisiadau yn fwy na'r nifer derbyn.

Bydd yr holl ddewisiadau a dderbynnir yn cael eu hystyried ar sail dewisiadau cyfartal. Nid yw dewis ein hysgol ni fel blaenoriaeth yn sicrhau lle os yw'r ysgol wedi'i gordanysgrifio.

Os bydd nifer y ceisiadau'n uwch na nifer y lleoedd sydd ar gael, yna bydd y meini prawf gormod o geisiadau canlynol yn cael eu defnyddio yn y drefn isod, i benderfynu pa ddisgyblion i'w derbyn.

Nodwch, bydd unrhyw blentyn y mae'r ysgol wedi eu henwi mewn Datganiad Anghenion Addysgol Arbennig / Cynllun Datblygu Unigol (CDU) yn cael eu derbyn cyn defnyddio'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael.

### **Meini Prawf Gormod o Geisiadau**

Mae meini prawf gordanysgrifio pob ysgol â gynorthwyr unigol i'w gweld yn ddiweddarach yn y ddogfen hon.

Os yw rhieni eisiau i'r ysgol ystyried cais eu plentyn o dan feini prawf d i g, mae angen i'w ficer / arweinydd ffydd lenwi a llofnodi Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd angen ei dychwelyd i Gorff Llywodraethol yr ysgol ddim hwyrach na phum wythnos ar ôl dyddiad cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n briodol). **Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Gellir canfod [Ffurflen Wybodaeth Atodol](#) at y diben hwn ar ddiwedd ein polisi derbyn sydd ar gael ar-lein ar neu'n uniongyrchol gan ein hysgol.

### **Penderfynu**

Ym mhob categori o feini prawf gormod o geisiadau, os oes mwy o geisiadau nag o leoedd bydd raid gwneud penderfyniad, a bydd lleoedd yn cael eu dyrannu yn nhrefn pellter gan roi blaenoriaeth i'r rhai sy'n byw agosaf at yr ysgol. Mae'r pellteroedd yn cael eu cyfrifo gan yr Awdurdod Lleol sy'n gyson yn defnyddio pellteroedd sy'n cael eu mesur ar system fapio Gwybodaeth Ddaeryddol.

Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf o'r cartref i'r ysgol. Caiff y llwybr i'r ysgol ei fesur o'r cartref at giât agosaf yr ysgol, a gallai gynnwys llwybrau cyhoeddus, llwybrau ceffylau a llwybrau eraill, yn ogystal â ffyrdd sydd wedi eu mabwysiadu.

### **Agosrwydd**

Bydd pellter yn cael ei fesur gan yr Awdurdod Lleol o'r cartref at giât agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf sydd ar gael, wedi ei fesur gyda system fapio Gwybodaeth Ddaeryddol. Lle mae pellteroedd yn gyfartal, megis o fflat mewn bloc o anheddau, byddai'r fflatiau llawr gwaelod yn cael eu hystyried yn agosach na'r fflatiau ar y lloriau uwch.

## Dyrannu lleoedd Meithrin

Caiff disgyblion eu derbyn i'r Feithrinfa, sy'n rhan o'n dosbarth Blynyddoedd Cynnar yn y flwyddyn academaidd pan fyddant yn bedair, h.y. gellir derbyn unrhyw blentyn sy'n dair erbyn 31 Awst ym mis Medi.

Nid yw addysg Feithrin yn orfodol ac nid oes gan y rhieni hawl i apelio o ran derbyniadau meithrin o dan [Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998](#).

Bydd addysg feithrin yn cael ei darparu ar sail 5 sesiwn, 2.5 awr yr wythnos ar gyfer pob plentyn. Mae lleoedd ar gael yn ein dosbarthiadau Meithrin, hyd at ein Nifer Derbyn.

Gall rhieni fynegi dewis a ffefrir ar gyfer unrhyw ddsbarth meithrin heb ystyried lleoliad cartref y plentyn mewn perthynas â'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw mynegi dewis a ffefrir yn gwarantu lle yn y dosbarth meithrin hwnnw. Mewn achos o ormod o geisiadau, bydd ceisiadau am leoedd meithrin yn cael eu trin gan ddefnyddio'r meini prawf gormod o geisiadau a nodwyd uchod.

Nid yw cael eich derbyn i'r dosbarth meithrin yn gwarantu derbyn i'r Dosbarth Derbyn. **Os oes gan blentyn le yn ein dosbarth Meithrin, mae'n rhaid i rieni lenwi'r ffurflen briodol i'w derbyn i'r Dosbarth Derbyn. Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen yn unol ag [Amserlen Trefniadau Derbyniadau Ysgolion](#) (fel y nodwyd uchod).**

## Darpariaeth Cludiant

Gweler gwefan yr Awdurdod Lleol Wrecsam: [Polisi Cludiant](#) ar gyfer cymhwysedd ar gyfer darpariaeth cludiant.

## Ceisiadau hwyr

Bydd ceisiadau hwyr (h.y. ceisiadau a dderbyniwyd ar ôl y dyddiad cau a gyhoeddwyd a chyn diwedd y cyfnod dyrannu) yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a gyflwynwyd ar amser oni bai bo rhesymau eithriadol pam fod y cais yn hwyr.

Mae'n rhaid egluro'r rhesymau eithriadol (e.e. pan fo rhiant sengl wedi bod yn sâl am beth amser, neu pan fo teulu newydd symud i'r ardal) yn eich cais er mwyn i'r pwyllgor derbyn eu hystyried. Mae'n RHAID darparu tystiolaeth ategol ar gais y pwyllgor derbyn.

Bydd yr holl geisiadau hwyr yn cael eu trefnu yn unol â'r meini prawf gormod o geisiadau a bydd unrhyw leoedd sydd ar gael yn cael eu cynnig i'r ymgeiswyr sydd uchaf ar y rhestr ar ddiwedd y cyfnod dyrannu. Wedi hynny, bydd ceisiadau hwyr yn cael eu rhoi ar restr aros.

## Rhestr aros

Bydd rhestr aros yn cael ei chadw os digwydd bod gormod o geisiadau yn dod i mewn i'r ysgol a bydd yn cynnwys:

- Plant y mae eu rhieni wedi nodi'n ysgrifenedig (gan gynnwys e-bost) eu bod eisiau rhoi eu plentyn ar restr aros yr ysgol
- Rhai y derbyniwyd ffurflen apêl ar eu cyfer
- Unrhyw geisiadau hwyr

Yn dilyn dyrannu lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol, bydd plant yn aros ar y rhestr aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y maent wedi gwneud cais amdani. Bydd plant yn cael eu rhestru ar ein rhestr aros yn nhrefn ein meini prawf gormod o geisiadau. Felly, os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddent yn cael eu cynnig i blant sydd ar y rhestr aros ar sail eu lle ar y rhestr aros NID ar sail dyddiad y cais.

Er enghraifft, os yw plentyn yn symud i ardal y tu allan i gylch derbyniadau arferol ac mae ganddynt flaenoriaeth uwch o dan feini prawf gormod o geisiadau, **mae'n rhaid** eu gosod yn uwch ar y rhestr na rhai â blaenoriaeth is sydd eisoes ar y rhestr. Cynhelir rhestrau aros tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol dan sylw.

## Apeliadau Derbyn

Os na fyddwn yn cynnig lle i blentyn yn yr ysgol hon, mae hynny oherwydd ein bod wedi cyrraedd y nifer derbyn a byddai'r cynnydd mewn niferoedd yn effeithio er gwaeth ar addysg ein disgyblion presennol. Gall rhieni sy'n anfodlon â phenderfyniad y Corff Llywodraethu i beidio â derbyn plentyn apelio'r penderfyniad. Bydd y wybodaeth am sut i apelio yn cael ei gynnwys gyda'r llythyr yn eich hysbysu bod eich cais yn aflwyddiannus. Os byddwch yn penderfynu apelio'r penderfyniad, rhaid i'r apêl gael ei hanfon ymlaen at **Glerc Llywodraethwyr ein hysgol**. Dylid hysbysu Bwrdd Addysg Statudol yr Esgobaeth hefyd.

Mae'n rhaid cyflwyno apêl yn ysgrifenedig, gan nodi'r rheswm (rhesymau) llawn pam eich bod yn dymuno apelio gan gynnwys unrhyw dystiolaeth ategol.

Caiff yr apêl ei chlywed gan Banel Apêl derbyniadau annibynnol, a gynullir gan y Bwrdd Addysg Esgobaethol Statudol yn ôl cod ymarfer Llywodraeth Cymru ar [Apeliadau Derbyn ysgolion](#). Mae'r Panel Apeliadau yn gwrandao ar yr holl apeliadau gan rieni y gwrthodwyd lle yn ein hysgol iddynt ac mae eu penderfyniad yn derfynol ar gyfer yr holl bartion dan sylw.

Nid yw'r hawl i apelio yn gymwys ar gyfer derbyniadau Meithrin.

Pan fydd rhiant yn darparu gwybodaeth dwyllodrus neu wybodaeth sy'n fwriadol gamarweiniol er mwyn derbyn lle ar gyfer eu plentyn yn ein hysgol, rydym yn cadw'r hawl i dynnu'r cynnig yn ôl. Pan fydd lle'n cael ei dynnu'n ôl, gellir ailgyflwyno'r cais ac os caiff ei wrthod, mae gan y rhiant yr hawl i apelio yn erbyn y penderfyniad.

## Ceisiadau y tu allan i'r cylch derbyn arferol

Bydd unrhyw un sy'n mynegi diddordeb i gael eu derbyn y tu allan i'r cylch derbyn arferol yn derbyn ffurflen gais ar y pwynt cyswllt cyntaf. Ar ôl eu derbyn, bydd ceisiadau o'r fath yn cael eu hystyried heb oedi a bydd penderfyniad ffurfiol i naill ai gynnig neu wrthod lle yn cael ei wneud, a byddwn, cyn belled ag y bo modd, yn hysbysu'r ymgeisydd o fewn 15 diwrnod ysgol neu 28 diwrnod calendr, pa un bynnag sydd gyntaf.

## Diffiniadau

### Cyfrifoldeb Rhiant

Diffinnir 'cyfrifoldeb rhiant' yn [Neddf Plant 1989](#) ac mae'n golygu'r holl hawliau, dyletswyddau, pwerau, cyfrifoldebau ac awdurdod sydd gan riant yn ôl y gyfraith mewn perthynas â'r plentyn a'i eiddo.

Oni nodir fel arall yn ôl gorchymyn llys:

- Mae gan famau gyfrifoldeb rhiant awtomatig
- Mae gan dadau gyfrifoldeb rhiant ar gyfer plentyn hefyd os yw'r tad yn briod gyda'r fam ar adeg geni'r plentyn. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad/gwahanu/ail-briodi hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'r plentyn.
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant pan fo'r fam a'r tad wedi cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (mae hyn yn ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nid yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau di-briod, llys-rieni, perthnasau ac unigolion eraill dderbyn cyfrifoldeb rhiant ond nid ydynt yn ei gael yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir rhoi cyfrifoldeb rhiant drwy:
  - Orchymyn preswyllo
  - Cael eu penodi'n warcheidwad
  - Cael eu henwi yn y gorchymyn amddiffyn brys (wedi'i gyfyngu i gymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu berson ifanc)
  - Neu drwy fabwysiadu

Nid yw byw gyda'r fam, hyd yn oed am gyfnod maith, yn rhoi cyfrifoldeb rhiant i'r tad ac os nad yw'r rhieni wedi priodi, nid yw cyfrifoldeb rhiant o reidrwydd yn cael ei drosglwyddo i'r tad naturiol os yw'r fam yn marw.

Mae angen i'r ysgolion wybod pwy sydd â 'chyfrifoldeb rhiant' ar gyfer pob plentyn. Mae hyn yn sicrhau y rhoddir awdurdod priodol pan fo'r ysgol angen caniatâd rhiant. Bydd hefyd yn sicrhau bod unigolion â chyfrifoldeb rhiant, nad ydynt yn byw gyda'r plentyn, yn gallu derbyn adroddiadau ysgol a chael cyfle i gymryd rhan yn addysg y plentyn.

### **Diffiniad o Riant**

Mae rhieni yn cynnwys yr holl bobl sydd â chyfrifoldeb rhiant ar gyfer plentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Pan fo cyfrifoldeb am blentyn wedi'i 'rannu', yr unigolyn sy'n derbyn budd-dal plant yw'r unigolyn sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais ac y defnyddir eu cyfeiriad at ddibenion derbyn.

### **Gofal am Blentyn**

Mae gan unigolyn 'ofal' am blentyn os yw'r unigolyn yn byw gydag ac yn gofalu am y plentyn, beth bynnag fo ei berthynas â'r plentyn. Mae unigolyn o'r fath yn cael ei ystyried fel 'rhiant' at ddibenion [Deddf Addysg 1996](#), er nad oes ganddo gyfrifoldeb rhiant am y plentyn o reidrwydd.

Gofynnir i rieni gydweithio gyda staff yr ysgol drwy ddarparu manylion yr unigolion sydd â chyfrifoldeb rhiant am y disgybl, ac sydd yn gofalu am y disgybl. Dylid hysbysu'r ysgol am unrhyw newidiadau i drefniadau cyfrifoldeb rhiant neu ofal dydd i ddydd y plentyn. Bydd unrhyw gyfeiriad at rieni yn y polisi hwn sy'n ymwneud â materion addysgol yn ymestyn i gynnwys unrhyw unigolyn sydd yn gofalu am y plentyn (plant).

### **Plant sy'n Derbyn Gofal**

Mae 'Plentyn sy'n derbyn Gofal' yn golygu un sy'n 'Derbyn Gofal' gan Awdurdod Lleol yn unol ag [Adran 22 y Ddeddf Plant](#). Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf ym meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, gan gynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol wneud ceisiadau ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal.

### **Plant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol**

Plant nad ydynt yn derbyn gofal bellach oherwydd eu bod wedi'u mabwysiadu neu'n destun gorchymyn preswyllo, neu orchymyn gwarchodaeth arbennig yn syth ar ôl derbyn gofal.

### **Diffiniad o Frawd neu Chwaer**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer neu sy'n blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu yn byw yn yr un

uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad ac y mae brawd neu chwaer yn dal i fod wedi ei gofrestru/ chofrestru yn yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Hefyd, bydd brodyr a chwiorydd biolegol sydd yn parhau i fod ar gofrestr yr ysgol hon pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd heb ystyried eu man preswyllo.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### **'Man preswyllo' a 'Chyfeiriad Cartref'**

Rhaid i'r cyfeiriad ar y ffurflen fod yn fan byw parhaol presennol y plentyn.

Ystyr parhaol yw lle y mae eich plentyn yn byw a chysgu am fwyafrif yr wythnos, heb fod am amser cyfyngedig ac nid mewn man lle bo'r plentyn yn aros dros dro am gyfnod byr.

Fel arfer cyfeiriad y rhieni fydd hyn. Os nad yw'r rhieni yn byw gyda'i gilydd, rhaid i'r cyfeiriad fod yn gyfeiriad y rhiant mae'r plentyn yn treulio y rhan fwyaf o amser gyda nhw - fel arfer y rhiant sy'n derbyn budd-dal plant (lle bo'n berthnasol). Os rhennir gwarchodaeth y plentyn yn gyfartal, dylai'r rhieni benderfynu pa gyfeiriad i'w ddefnyddio ond efallai y byddwn yn gofyn i weld Gorchymyn Llys neu dystiolaeth arall i gadarnhau bod y trefniant yn bodoli. Ni ddylech ddefnyddio cyfeiriad busnes, perthynas neu ofalwr/gwarchodwr plant. Os am unrhyw reswm nad chi yw rhiant y plentyn neu fod trefniadau byw y plentyn mewn man anarferol eglurwch hyn ar y ffurflen a darparu dystiolaeth.

**Dim ond** o un cyfeiriad y gellir gwneud cais, a dim ond un cais fesul plentyn y gellir ei wneud.

Os na allwch gytuno gyda'r rhiant arall pa ysgol y dylai eich plentyn ei mynychu, dylech gymryd cyngor cyfreithiol ar unwaith ynglŷn â gwneud cais brys i'r Llys.

Pe bai angen gofyn am dystiolaeth efallai y bydd angen sawl eitem i ddangos lle yr ydych yn byw gyda'ch plentyn, mae dystiolaeth dderbyniol yn cynnwys y canlynol:

- Trwydded yrru
- Budd-dal plant
- Bil gwasanaeth yn eich enw chi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd
- Copi o'ch cytundeb tenantiaeth wedi'i lofnodi ar gyfer cyfnod y cais a/neu gyfnod dyrannu lleoedd neu dystiolaeth o unrhyw brydles neu gytundeb sy'n cadarnhau eich hawl i fyw yn y cyfeiriad
- Unrhyw dystiolaeth arall o'r fath sy'n rhesymol yn ein barn ni

Bydd ein Corff Llywodraethu, mewn cydweithrediad â'r Awdurdod Lleol, yn gwirio'r cyfeiriad ar eich cais yn erbyn y cofnodion a gedwir ar gyfer ysgol /meithrinfa bresennol eich plentyn, ac efallai y byddwn yn gofyn am wybodaeth neu dystiolaeth gennych chi os ydynt yn wahanol. Efallai y bydd yr Awdurdod Lleol yn gwirio cofnodion treth y cyngor. Os nad ydych wedi nodi cyfeirnod treth y cyngor ar eich cais yna efallai y byddant yn ysgrifennu atoch i ofyn i chi ddarparu dystiolaeth ychwanegol o'ch cyfeiriad.

At ddibenion dyrannu, bydd unrhyw gynnig o le yn yr ysgol yn seiliedig ar ble fydd eich plentyn yn byw ar ddiwedd y **cyfnod dyrannu** ([gweler amserlen derbyniadau'r awdurdod lleol](#)), ac yn amodol ar eich plentyn yn byw yn y cyfeiriad hwnnw, oni bai eich bod wedi ein hysbysu a'n bod wedi derbyn ei fod wedi symud yn y cyfamser.

Os ydych yn symud ar ôl gwneud cais ond yn ystod y cyfnod dyrannu mae'n rhaid i chi roi dystiolaeth o'ch cyfeiriad newydd. Mae dystiolaeth dderbyniol yn cynnwys:

- Llythyr cyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi cwblhau'r broses o brynu eiddo; neu
- Gopi o'r Cytundeb Rhentu cyfredol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
- Yn achos gweithwyr Lluoedd E.M. sy'n gwasanaethu, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu gwasanaeth oddi wrth yr MOD, FCO neu GCHQ

Byddwn yn ymchwilio i'r holl geisiadau lle mae amheuaeth am y cyfeiriad a roddir.

**Rhybudd Cyfeiriad: Gall defnyddio gwybodaeth ffug, gamarweiniol, anghyflawn neu anghywir arwain atom yn tynnu cynnig o le yn ôl, hyd yn oed ar ôl i'r plentyn gychwyn mewn ysgol.**

Gellir tynnu lle plentyn yn ôl os yw rhieni yn darparu cyfeiriad anghywir ar eu ffurflen gais gychwynnol, neu ar unrhyw adeg wedi hynny yn ystod y cyfnod dyrannu. Ni fyddwn yn derbyn cyfeiriad dros dro os oes gennych chi eiddo a ddefnyddiwyd fel cyfeiriad cartref yn flaenorol, oni bai bo amgylchiadau eithriadol sy'n dangos yn amlwg na Awdurdod Lleol fod yn gyfeiriad parhaol i chi mwyach.

Ni fyddwn chwaith yn derbyn cyfeiriad dros dro y credwn ei fod yn cael ei ddefnyddio er mwyn derbyn lle yn yr ysgol. Efallai y byddwn yn gofyn am ragor o wybodaeth i egluro pam nad ydych yn gallu defnyddio eich cyfeiriad parhaol.

Byddwn yn archwilio pob honiad o gyfeiriadau ffug. Cyfrifoldeb y rhieni yw'r dystiolaeth er mwyn darparu dogfennaeth ddigonol i gefnogi preswyliaeth barhaol yn y cyfeiriad a nodwyd.



## Ysgol Eglwys yng Nghymru 'Addas'

Mae hyn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Saesneg, Cymraeg a Dwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## Efeilliaid, Tripledi, Genedigaethau Lluosog

Efeilliaid, tripledi, pedrypledau ac ati sy'n byw yn yr un cyfeiriad ac yn gwneud cais am leoedd yn yr un grŵp blwyddyn yn yr un ysgol.

Mewn amgylchiadau lle bo un lle ar ôl yn yr ysgol, ac ôl y meini prawf gormod o geisiadau mae un plentyn o enedigaethau lluosog yn derbyn y lle olaf, EFALLAI y gellir derbyn y plant eraill fel eithriadau. Mae Cod Derbyniadau Ysgolion Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai dosbarthiadau babanod gynnwys mwy na 30 disgybl gydag un athro/athrawes ysgol. Mewn amgylchiadau cyfyngedig, gellir derbyn plant fel 'eithriadau' i derbyn maint dosbarth babanod; efallai y gellir ystyried genedigaethau lluosog fel eithriad ac felly gellir eu derbyn dros y nifer derbyn a gyhoeddwyd.

## Sut fydd ymlyniad crefyddol yn cael ei brofi

Mewn perthynas â 'mynychu / yn aelodau gweithredol' o feini prawf gormod o geisiadau.

Os yw rhieni eisiau i'r ysgol ystyried cais eu plentyn o dan feini prawf d i g, mae angen i'w ficer / arweinydd ffydd lenwi a llofnodi Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd angen ei dychwelyd at (enw perthnasol y Corff Llywodraethu) a hynny'n ddim hwyrach na phum wythnos ar ôl dyddiad cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n briodol). **Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol.**

Gellir canfod [Ffurflen Wybodaeth Atodol](#) at y diben hwn ar ddiwedd ein polisi derbyn sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan ein hysgol.

Mae'n rhaid dychwelyd y ffurflen i'r ysgol ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl dyddiadau cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n berthnasol). Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei ben ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni hefyd lenwi Ffurflen Gais fel y nodir ar ddechrau'r polisi hwn.

Caiff Aelod ei ddiffinio fel aelod o'r Eglwys yng Nghymru trwy gofrestru ar gofrestr etholiadol y plwyf.

## Adolygu

Adolygir y polisi bob blwyddyn er mwyn cynnwys unrhyw newid o ran deddfwriaeth neu newid mewn amgylchiadau lleol. Mae'r polisi hwn yn unol â chod mynediad Ysgolion presennol Llywodraeth Cymru a chod apeliadau derbyn Ysgolion Llywodraeth Cymru.

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Holl Saint yr Eglwys yng Nghymru, Gresffordd

Mae Ysgol yr Holl Saint yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru, sydd wedi ei lleoli ym mhentref Gresffordd yn Wrecsam. Yr ydym yn falch o fod yn ysgol gynhwysol sydd â'r nod o ddatblygu ein disgyblion yn unol â gweledigaeth yr ysgol: 'gyda pharch, cyfeillgarwch a gofal, dysgwn yma a llwyddwn yn unrhyw le.'

Mae Ysgol yr Holl Saint yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed.

Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 45.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Alun a lle mai hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i'w cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn radiws 2 filltir i'r ysgol hon. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dadl' ([gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys yr Holl Saint, yn Ardal Genhadaeth Alyn
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf D i G, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Holl SaintAll Saints' V.A. ddim hwyrach na **phum** wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol. Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

### Ysgol Eglwys yng Nghymru 'Addas'

Mae hyn yn cyfeirio at y cyfrwng iaith (Saesneg, Cymraeg a Dwyieithog) yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Bronington

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Bronington yn ysgol gynradd fechan wledig ar gyrion Wrecsam, ac ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr. Mae hyn yn rhoi mantais arbennig i ni, yn enwedig pan fo'n dod i'r cyfnod pontio i'r Ysgol Uwchradd, gan fod gan rieni ddewis ehangach o ysgolion. Ein nod yn Ysgol Bronington yw dysgu'r disgybl unigol yn hytrach na dysgu grŵp blwyddyn penodol. Mae'r ffaith bod ein dosbarthiadau'n cynnwys disgyblion o wahanol oedran yn ein galluogi i ddiwallu anghenion plant, beth bynnag fo'u grŵp blwyddyn neu allu.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Maelor a hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn cwmpas 2.5 milltir o'r ysgol ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys y Drindod Sanctaidd, Bronington, yn Ardal Genhadaeth Maelor
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol Gynradd a Gynorthwyir yn Wirfoddol Bronington ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol. Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

## Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Madras

Yng nghyd-destun cred Gristnogol, rydym yn ceisio darparu addysg o'r ansawdd uchaf i'n disgyblion mewn awyrgylch hapus a chefnogol. Rydym am i'n plant fwynhau gwersi diddorol a symbylol wrth ddeall yr angen am ymddygiad da a pharch i'w hunain ac eraill. Rydym hefyd yn cyfoethogi'r cwricwlwm drwy amrywiaeth eang o weithgareddau ar ôl ysgol ac ymweliadau addysgol. Mae Ysgol a Gynorthwyir Madras, Llannerch Banna yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer Derbynn (ND) ein hysgol yw 17.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu. ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Maelor a lle mai hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i'w cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn radiws 3 filltir i'r ysgol hon. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dad!'. ([gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Mair Magdalen, Llannerch Banna yn Ardal Genhadaeth Maelor
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol a Gynorthwyir Madras, Llannerch Banna ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol. Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

Mae'n rhaid dychwelyd y ffurflen i'r ysgol ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl dyddiadau cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n berthnasol). Nid yw'r Ffurflen Wybodaeth Atodol ar ei ben ei hun yn golygu eich bod wedi gwneud cais; rhaid i rieni hefyd lenwi Ffurflen Gais fel y nodir ar ddechrau'r polisi hwn

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Yr Eglwys yng Nghymru y Mwynglawdd

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol, bydd yr ysgol yn cadw a datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Lloegr ac mewn partneriaeth â'r eglwysi ar lefelau plwyfol ac esgobaethol. Nod yr ysgol yw gwasanaethu'r gymuned trwy ddarparu addysg o'r radd flaenaf yng nghyd-destun cred ac arfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac mae'n hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiad mae'n ei gynnig i bob un o'i disgyblion. Mae'r profiad hwn wedi'i gynllunio i annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu fel bod modd i bob un gyrraedd ei lawn botensial. Darperir cyfleoedd i ddatblygu hunan-ddisgyblaeth, parch at eraill ac at eiddo, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a chyfrifoldebau'r unigolyn tuag ato. Ar y cyd â rhieni, mae'r ysgol yn ennyn parch at werthoedd crefyddol a moesegol a goddefgarwch at hiliau, crefyddau a diwylliannau eraill. Anogir disgyblion i ddatblygu eu hyder, dathlu cyflawniadau a bod yn falch o fod yn aelod o gymuned yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Mwynglawdd yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed.

Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 17.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer hŷn sydd o oed ysgol statudol ac a fydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i'w mynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Alun a lle mai hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i'w cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn 2 filltir i'r ysgol hon. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dadl.' ([gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#))
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys y Santes Fair yn y Mwynglawdd
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Angli canaidd arall a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf



- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a'u bod hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni eisiau i'r ysgol ystyried cais eu plentyn o dan feini prawf d i g mae angen i'w ficer / arweinydd ffydd lenwi a llofnodi Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd angen ei dychwelyd at Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir y Mwynglawdd ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl dyddiad cau ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel y bo'n briodol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn gofyn am wybodaeth am ba mor aml y mynychir gwasanaethau / yr Ysgol Sul, ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein ar neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

## Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Chad

Adeiladwyd Ysgol Hanmer ar y safle hwn ym 1676 ac mae plant wedi'u haddysgu yma'n ddi-dor ers hynny. Ei henw bellach yw Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru Sant Chad ac rydym o'r farn bod amgylchedd Cristnogol hapus a diogel lle mae pob plentyn yn cael ei werthfawrogi yn lle i ddisgyblion allu dysgu'n llwyddiannus. Mae hunanhyder disgyblion yn cael ei feithrin, gan arwain at sgiliau cyfathrebu da a pharodrwydd i ddysgu. Anogir a disgywylir parch at eraill, a ddangosir drwy foesau da a diddordeb brwd a chwilfrydig yn y byd o'n cwmpas.

Ein nod yw rhagoriaeth academaidd i bob un o'n plant trwy gwricwlwm eang a chytbwys a chysylltiadau cryf â rhieni a gofalwyr, yr Eglwys a'r gymuned ehangach.

Mae Ysgol Sant Chad yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 mlwydd oed. Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 13.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion sydd â brawd neu chwaer hŷn sydd o oed ysgol statudol ac a fydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i'w mynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Maelor a lle mai hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i'w cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn 3 filltir i'r ysgol hon. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dad!' ([gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Sant Chad, yn Ardal Genhadaeth Maelor
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a'u bod hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol Sant Chad ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn gofyn am wybodaeth am ba mor aml y mynychir gwasanaethau / yr Ysgol Sul, ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein ar neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Brymbo

Mae ein hysgol yn anelu i greu amgylchedd ac amodau sy'n cefnogi addysg plant a'u helpu i gyflawni eu potensial, gan sicrhau bod cymeriad crefyddol yr ysgol yn cael ei adlewyrchu ar draws pob agwedd o fywyd yr ysgol.

Rydym yn bwriadu hyrwyddo arferion gwaith da drwy drafodaeth, archwilio syniadau, a brwdfrydedd i sicrhau bod pawb yn dangos y cynnydd gorau posib yn ein hysgol. Mae ein gwefan yn arf pellach i'n helpu ni wneud hyn. Rydym yn gobeithio y byddwch yn dod o hyd i wybodaeth werthfawr yma ynghylch ein ysgol a dathlu cyflawniadau a chynnydd ein plant.

Mae'r bartneriaeth yr ydym yn ei fagu rhyngoch chi, yr Eglwys, y Llywodraethwyr a'r gymuned gyfan yn pwysleisio ein gweledigaeth ar gyfer dysgu. Rydym yn teimlo fod gan bawb eu rôl i chwarae yn addysg eich plentyn, a bod plant yn gallu ffynnu pan maent yn cael ei meithrin gan bawb o'u cwmpas.

Caiff hyn ei adlewyrchu yn ein datganiad cenhadaeth: *Credu a Thyfu, Dysgu a Chyflawni, gyda Duw wrth ein hochr.*

Mae'r Santes Fair yn derbyn disgyblion rhwng 3 a 11 mlwydd oed Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 22.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Alun a hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn cwmpas 2 milltir o'r ysgol ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys y Santes Fair, Brymbo yn Ardal Genhadaeth Alun
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf atynt

- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ffederasiwn Ysgolion Eglwys Maelor ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau /Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Owrtyn

Yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, rydym yn darparu addysg eang, gytbwys a chyfoethog lle mae gwerthoedd Cristnogol yn ategu popeth a wnawn. Rydym yn rhoi'r un gwerth ar bob un o'n disgyblion a'n nod yw cynorthwyo'n plant i ddatblygu eu gwir botensial a chredu yn eu gwerth eu hunain.

Anogir disgyblion i gymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a chynorthwyo i ddarparu awyrgylch gytûn yn yr ysgol. Cymerir pob cyfle i sicrhau bod plant, staff, rhieni a llywodraethwyr yn deall a chytuno â'r egwyddorion rydym yn byw yn unol â hwy. Gan weithio mewn partneriaeth, mae staff a llywodraethwyr yn ceisio darparu'r cyfleoedd dysgu gorau posibl i'ch plentyn a drwy gydweithio gyda chi, gallwn gyflawni hyn.

Mae Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 30.

### Meini Prawf os oes Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Maelor a hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn cwmpas 3 milltir o'r ysgol. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dadl'. ([Gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys y Santes Mair Forwyn, yn Ardal Genhadaeth Maelor
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, ac mai hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf

h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau /Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol. Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.**

## Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, Rhiwabon

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol, bydd yr ysgol yn cadw a datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Lloegr ac mewn partneriaeth â'r eglwysi ar lefelau plwyf ac esgobaeth.

Nod yr ysgol yw gwasanaethu'r gymuned drwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf yng nghydestun cred ac arfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac yn hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiad y mae'n ei gynnig i bob un o'i disgyblion.

Mae'r profiad hwn wedi'i gynllunio i annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu, fel bod modd i bob un gyrraedd ei lawn botensial. Darperir cyfleoedd i ddatblygu hunan-ddisgyblaeth, parch at eraill ac at eiddo, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a chyfrifoldebau'r unigolyn tuag ato.

Mewn partneriaeth â rhieni, mae'r ysgol yn dysgu parch at werthoedd crefyddol a moesegol a goddefgarwch at hiliau, crefyddau a diwylliannau eraill.

Anogir disgyblion i fagu hyder, dathlu cyflawniad a chymryd balchder yn eu haelodaeth o gymuned yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 24.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd dal wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Offa a hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf at eu cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn cwmpas 1.5 milltir o'r ysgol. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran '[Torri Dad!](#)' ([Gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys y Santes Fair, Rhiwabon yn Ardal Genhadaeth Offa
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall a dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf



- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, a dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo **Ffurflen Wybodaeth Atodol** sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ysgol yr Eglwys yng Nghymru y Santes Fair, ddim hwyrach na **phum wythnos** ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan yr offeiriad, gweinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Mae Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn i'w gweld ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#), sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

### **Diffiniad o Frawd neu Chwaer**

Diffinnir brawd neu chwaer fel plentyn sydd â brawd, chwaer, llysfrawd neu lyschwaer, hanner brawd neu hanner chwaer, neu sy'n blentyn maeth neu blentyn wedi'i fabwysiadu yn yr un uned deuluol yn yr un aelwyd deuluol a chyfeiriad, ac y mae'r brawd neu'r chwaer yn dal i fod wedi cofrestru yn yr ysgol a ffeirir pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu'r ysgol. Bydd brodyr a chwiorydd biolegol sy'n dal i fod ar gofrestr yr ysgol a ffeirir ar 1 Medi 2025 hefyd yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd, waeth lle fo'u man preswyllo.

Ni fydd plant sy'n byw yn yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

### **Ysgol Eglwys yng Nghymru 'Addas'**

Mae hyn yn cyfeirio at statws yr ysgol (Ysgol Wirfoddol a Reolir neu Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir) a chyfrwng iaith yr ysgol (Saesneg, Cymraeg a Dwyieithog), yn dibynnu ar ddewis y rhieni.

## Ysgol Wirfoddol A Gynorthwyir Yr Eglwys Yng Nghymru Sant Paul

Gan gydnabod ei sylfaen hanesyddol, bydd yr ysgol yn cadw a datblygu ei chymeriad crefyddol yn unol ag egwyddorion yr Eglwys yng Nghymru, Eglwys Lloegr ac mewn partneriaeth â'r eglwysi ar lefelau plwyf ac esgobaeth.

Nod yr ysgol yw gwasanaethu'r gymuned trwy ddarparu addysg o'r ansawdd uchaf yng nghydestun cred ac arfer Cristnogol. Mae'n annog dealltwriaeth o ystyr ac arwyddocâd ffydd ac mae'n hyrwyddo gwerthoedd Cristnogol drwy'r profiad mae'n ei gynnig i bob un o'i disgyblion.

Mae'r profiad hwn wedi'i gynllunio i annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu fel bod modd i bob un gyrraedd ei lawn botensial. Darperir cyfleoedd i ddatblygu hunan-ddisgyblaeth, parch at eraill ac at eiddo, gwerthfawrogiad o'r amgylchedd a chyfrifoldebau'r unigolyn tuag ato.

Mewn partneriaeth gyda rhieni, mae'r ysgol yn gosod parch at werthoedd crefyddol a moesegol a goddefgarwch at hiliau, crefyddau a diwylliannau eraill.

Anogir disgyblion i ddatblygu o ran hyder, dathlu cyflawniad a chymryd balchder yn eu haelodaeth o gymuned yr ysgol.

Mae Ysgol Gynradd Wirfoddol a Gynorthwyir Sant Paul yn derbyn disgyblion rhwng 3 ac 11 oed. Nifer Derbyn (ND) ein hysgol yw 7.

### Meini Prawf Gormod o Geisiadau

- a. Plant sy'n derbyn gofal a phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol
- b. Disgyblion gyda brawd neu chwaer hŷn sydd o oedran ysgol statudol ac sydd wedi cofrestru yn ein hysgol pan fo'r plentyn iau yn gymwys i fynychu ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#))
- c. Disgyblion sy'n byw yn Ardal Genhadaeth Alun a lle mai hon yw'r ysgol Eglwys yng Nghymru addas agosaf i'w cyfeiriad cartref ac sy'n byw o fewn radiws 3 filltir i'r ysgol hon. Bydd pellter yn cael ei fesur fel y gwelir yn yr adran 'Torri Dadl.' ([gweler yr adran 'Diffiniadau' o'r polisi](#)).
- d. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Sant Paul, Isycoed yn Ardal Genhadaeth Alun
- e. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn mynychu Eglwys Anglicanaidd arall ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyir agosaf

- f. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' yn y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o enwad Cristnogol nad yw'n Anglicanaidd, a hon yw'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf atynt
- g. Disgyblion y mae eu rhieni ([gweler adran 'Diffiniadau' y polisi](#)) yn aelodau gweithredol o ffydd arall a hefyd yn mynegi dyhead am addysg mewn Ysgol Eglwys, ac mai dyma'r Ysgol Eglwys Wirfoddol a Gynorthwyr agosaf
- h. Disgyblion y mae eu rhieni yn dymuno iddynt fynychu Ysgol Eglwys yng Nghymru

Os yw rhieni, neu'r sawl gyda chyfrifoldeb rhieni, yn dymuno cael cais eu plentyn wedi ei ystyried o dan feini prawf d i g, yna bydd yn rhaid iddynt gael eu ficer / arweinydd ffydd i lenwi ac arwyddo Ffurflen Wybodaeth Atodol sydd angen ei dychwelyd i Gorff Lywodraethu Ffederasiwn Ysgolion Eglwys Maelor ddim hwyrach na phum wythnos ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau Meithrin neu Dderbyn (fel sy'n berthnasol).

**Mae'r Ffurflen Wybodaeth Atodol yn ceisio gwybodaeth am amllder presenoldeb mewn gwasanaethau / Ysgol Sul ac ati. Mae angen cadarnhad o'r manylion hyn gan offeiriad, weinidog neu arweinydd ffydd lleol.** Gellir canfod Ffurflen Wybodaeth Atodol at y diben hwn ar ddiwedd ein [polisi derbyn](#) sydd ar gael ar-lein neu'n uniongyrchol gan yr ysgol.

## Uwchradd Sefydledig: Ysgol Maelor, Penley

Mae'r ysgol yn cydymffurfio â Deddf Addysg 2009 sy'n rhoi blaenoriaeth i dderbyn Plant Sy'n Derby Gofal. Os yw nifer ceisiadau am dderbyn plant yn fwy nag ein nifer safonol o 130, mae'r llywodraethwyr wedi cytuno y dylid rhoi'r meini prawf canlynol ar waith, yn y drefn y maent yn ymddangos.

### Meini prawf gormod o geisiadau

1. 'Plant Sy'n Derby Gofal' a 'Phlant wedi derbyn gofal yn y gorffennol'
2. Presenoldeb yn yr ysgolion cynradd sy'n bwydo Ysgol Maelor: Ysgol Sant Dunawd, Bangor Is-y-Coed; Ysgol Gynradd Gymorthedig Bronington; Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Eyton; Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Sant Chad, Hanmer; Ysgol Gynradd Wirfoddol Gymorthedig Sant Paul, Is-coed; Ysgol Gynradd Gymorthedig yr Eglwys yng Nghymru Madras, Llannerch Banna; Ysgol Gynradd Sirol Deiniol, Marchwiall; Ysgol Gymorthedig y Santes Fair, Owrtyn; ac Ysgol Gynradd Wirfoddol Reoledig Borderbrook, Tallarn Green
3. Brodyr a chwiorydd disgyblion sydd eisoes yn mynychu rhan 11-16 yr ysgol. [Bydd brodyr a chwiorydd, p'un ai ydyn nhw'n llawn, hanner, llys neu faeth yn cael eu hystyried yn berthnasol pan maent yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad a'r un tŷ teuluol lle bydd y plentyn hynaf yn dal wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r plentyn ieuengaf yn gymwys i'w mynychu. Ni fydd plant sy'n byw yn yr un tŷ fel rhan o 'deulu estynedig' fel cefndryd a chyfnitherod yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd. Bydd y brodyr neu'r chwiorydd ym mlwyddyn 8-11 pan fydd y plentyn iau yn cychwyn]
4. Agosrwydd: rhoddir blaenoriaeth i'r pellter byrraf. [Caiff pellteroedd eu mesur yn ôl y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael o'r cartref i'r ysgol, a allai gynnwys llwybrau cyhoeddus. Y llwybr byrraf sydd ar gael yw'r un sy'n cael ei ystyried yn ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu i gerdded ar ei hyd ar ben ei hun, neu gyda hebryngwr pe byddai oed y plentyn yn galw am hynny yn unol â ['Chanllaw Gweithredol a Darpariaeth Statudol Teithio gan Ddysgwyr'](#) - Llywodraeth Cymru
5. Os bydd mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael ym meini prawf 2 a 3, bydd y pellter a amlinellir ym maen prawf 4 yn cael ei ddefnyddio i benderfynu.

### Gwrthod lle

Os ydych yn cael eich gwrthod ar ôl i'r ysgol roi'r meini prawf derbyn uchod ar waith, mae gennych hawl i apelio i banel apelio annibynnol. I wneud hyn, dylai Rhiant/Gwarchodwr wneud cais ysgrifenedig am apel i ['Glerc y Panel Apelio'](#) yng nghyfeiriad yr ysgol.

## Meini prawf derbyn plant o enedigaethau lluosog

Pan fo'r Corff Llywodraethu'n ystyried gefeilliaid, tripledi neu enedigaethau lluosog eraill pan fo un lle ar ôl, bydd y teulu'n cael cynnig y lle a gallent ddewis (a) ei dderbyn ar gyfer un plentyn, pwy bynnag y maen nhw'n ei ddewis, neu (b) wrthod y lle a bydd yn cael ei gynnig i'r unigolyn nesaf yn y drefn ar ôl y gefeilliaid/tripledi/genedigaethau lluosog. Noder na fyddai brodyr a chwiorydd genedigaethau lluosog yn cael eu blaenoriaethu i gael eu derbyn ac eithrio fel cysylltiad teuluol unwaith y byddai'r teulu wedi derbyn y lle(oedd) a gynnigwyd i un o'r efeilliaid/triawd/genedigaethau lluosog.

## Rhestr aros

Bydd Ysgol Maelor yn cadw rhestr aros yn dilyn cynnig lleoedd yn ystod y cylch derbyn arferol. Bydd y rhestr aros yn ei lle tan 30 Medi yn y flwyddyn ysgol y gwneir y cais ynddi. Ar gyfer ceisiadau trosglwyddo yng nghanol y cyfnod yn yr ysgol, bydd Ysgol Maelor yn cadw'r cais ar restr aros ar gyfer y flwyddyn academaidd y gwneir y cais ynddi.

Ar ôl hynny, dylai rhieni wneud cais derbyn newydd. Os daw lleoedd ychwanegol ar gael tra bo'r rhestr aros mewn grym, byddent yn cael eu cynnig i blant sydd ar y rhestr aros ar sail y meini prawf pan fo gormod o geisiadau ac nid ar sail dyddiad y cais. Os daw lleoedd ar gael cyn y gwrandawriad apeliadau, byddent yn cael eu llenwi o'r rhestr aros.

## Ceisiadau hwyr

Bydd ceisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau sydd wedi'i gyhoeddi'n cael eu trin fel ceisiadau hwyr. Bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r un meini prawf a gyhoeddwyd. Fodd bynnag, os oes gormod o geisiadau i nifer y lleoedd sydd ar gael, yna bydd ceisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y ceisiadau hynny a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau.

## Ceisiadau y tu allan i'r cylch derbyn arferol

Bydd yr ysgol yn rhoi'r polisi derbyn ar waith ar gyfer pob cais a dderbynnir ar ôl y cylch derbyn arferol neu ar gyfer grwpiau blynyddoedd eraill (symud yng nghanol y cyfnod yn yr ysgol) gan ddefnyddio'r meini prawf a'r trefniadau uchod.

## Sut i wneud cais am le

Bydd angen i chi gwblhau cais gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, [naill ai ar-lein drwy'r wefan](#) neu drwy ofyn am gais papur gan y tîm derbyniadau [admissions@wrexham.gov.uk](mailto:admissions@wrexham.gov.uk).

Dylid dychwelyd y ffurflen gais i'r Awdurdod Lleol erbyn y dyddiad blynyddol a gyhoeddwyd. Os yw eich plentyn yn mynychu ysgol gynradd yn Wrecsam bydd yr wybodaeth yma yn cael ei rhoi iddyn nhw ar ddechrau tymor yr Hydref.

**Bydd hefyd angen i chi lenwi ffurflen dderbyn Ysgol Maelor (yn y pecyn yma) a'i dychwelyd i Ysgol Maelor erbyn 4 Tachwedd 2024.**

Cyfnod dyrannu Ysgol Maelor yw 5 Tachwedd 2024 tan 6 Ionawr 2025.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn dychwelyd y ddwy ffurflen gais. Os ydych yn llwyddiannus cewch wybod bod lle ar eich cyfer yn Ysgol Maelor cyn 3 Mawrth 2025.

## Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St Joseph, Wrecsam

Mae St Joseph yn Ysgol Uwchradd Gatholig ag Anglicanaidd, ac felly yn ysgol wirioneddol unigryw fel ysgol eglwysig a rennir yng Nghymru. Mae Esgobion Esgobaethau Wrecsam a Llanelwly yn sicrhau bod yr ysgol yn bodoli i wasanaethu cymunedau Catholig a Chymunedau Eglwys yng Nghymru Wrecsam. Fel ysgol, rydym yn croesawu pobl ifanc o bob cefndir, sy'n ffafrio addysg yn seiliedig ar ffydd ar gyfer eu plentyn. Rydym yn gofyn i bob rhiant sy'n gwneud cais am le yma gydnabod a pharchu yr ethos a'r addysg nodweddiadol mae'r ysgol yn ei ddarparu a'u pwysigrwydd i gymuned yr ysgol. Nid yw hyn yn effeithio hawl y rhieni nad ydynt yn Gatholig nac yn Anglicanaidd i wneud cais am le yma ac rydym yn ceisio hyrwyddo cynwysoldeb i bawb. Fodd bynnag mae'n meini prawf pan fo gormod o geisiadau yn ei gwneud yn amlwg y byddwn, wrth gyflawni ein cenhadaeth Gristnogol, yn rhoi blaenoriaeth i aelodau cymunedau Catholig a chymunedau'r Eglwys yn Nghymru o ran lleoedd a bydd y meini prawf hyn yn berthnasol os yw'r nifer o geisiadau ar gyfer lleoedd yn fwy na'r nifer derbyn a gyhoeddwyd.

### Derbyniadau o Ysgolion Cynradd i Ysgolion Uwchradd

Wrth wneud cais am le yn Ysgol St Joseph, rhaid i rieni sicrhau eu bod yn cwblhau'r ddau gam canlynol:

#### Cam 1: Cwblhau Proses Ymgeisio'r Ysgol (i'w ddychwelyd i'r ysgol)

- [Ffurflen Gais](#) yr Ysgol: i'w llenwi gan Riant neu Warcheidwad
- Ffurflen Gwybodaeth Ategol: i'w llenwi gan eich Offeiriad / Gweinidog / Arweinydd Crefyddol eich man addoli. Os nad oes gennych gysylltiad crefyddol, dychwelwch y ffurflen gan nodi hynny
- Tystiolaeth o'r Sacramentau a Dderbyniwyd: gan gynnwys llungopiâu o unrhyw dystysgrifau neu ddogfennau a llofnodwyd. Mae'n rhaid cynnwys manylion cyswllt y plwyf / sefydliad a enwyd

#### Cam 2: Cwblhau Proses Ymgeisio yr Awdurdod Lleol

- Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithredu proses geisiadau ar-lein a gellir dod o hyd i fanylion am hyn yn ['Derbyniadau Ysgol'](#). Fel arall, gall rhieni ofyn yn uniongyrchol i Cyswllt Wrecsam am ffurflenni cais papur yr Awdurdod Lleol

Bydd y Panel Derbyn yn ystyried Ceisiadau gyda'r prosesau uchod wedi'u cwblhau yn unig. Rhaid i chi gwblhau Rhan 1 (3 cham gwybodaeth i'w darparu'n uniongyrchol i'r ysgol) a Rhan 2 (ffurflen gais Awdurdod Lleol).

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 4 Tachwedd 2024. Corff Llywodraethu Ysgol Uwchradd Gatholig ac Anglicanaidd St. Joseph yw'r awdurdod derbyn.

## Trosglwyddiadau Canol Cyfnod

Os yw rhieni am drosglwyddo eu plentyn o ysgol uwchradd i Ysgol St Joseph, awgrymir eu bod yn cysylltu â'r ysgol yn uniongyrchol. Mae pecynnau cais ar gael o'r ysgol neu i'w lawrlwytho oddi ar [wefan yr ysgol](#).

## Polisi Derbyn

I gydnabod yr ymdeimlad o gytgord a phartneriaeth sydd wedi nodweddu twf yr ysgol hon a rennir, cytunwyd y bydd un Panel Derbyn yn cael ei sefydlu i ddelio â phob derbyniad. Bydd cynrychiolwyr o'r ddau enwad yn ffurfio'r Panel hwn.

Nifer derbyn yr ysgol yw 137 ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Mae'r Corff Llywodraethu yn cynnig derbyn 137 o ddisgyblion. Mae Ysgol St Joseph yn ysgol gwbl gynhwysol ac mae Darpariaeth Adnoddau ar gael. Nid ar sail gallu neu ddawn y mae dethol. Bydd yr holl geisiadau, gan gynnwys y rheiny sy'n ceisio Darpariaeth ag Anoddau, yn cael eu hystyried gan ddefnyddio'r un meini prawf a fanylir isod.

Bydd y Llywodraethwyr yn ystyried ceisiadau, ac yn dyrannu 137 o leoedd, yn unol â thystiolaeth o ymrwymiad gan rieni a phlant i'r addysg enwadol gynhwysfawr a gynigir yn Ysgol St Joseph. Dyrennir lleoedd yn unol â'r gymhareb sylfaenol a sefydlwyd yn yr ysgol ers y dechrau: bydd hyd at 60% o ddisgyblion a dderbynnir o draddodiad Catholig a hyd at 40% o ddisgyblion o'r traddodiad Anglicanaidd. Mae'r Llywodraethwyr yn cydnabod bod aelodau o enwadau Cristnogol eraill a chymunedau ffydd eraill wedi bod, ac yn parhau i fod, yn rhan o fywyd Ysgol St. Joseph, ac maen nhw wedi ymrwymo i gynnal hyn o fewn cyfyngiadau'r niferoedd gwirioneddol sy'n gwneud cais i'r ysgol mewn unrhyw flwyddyn.

Os bydd y Corff Llywodraethu'n cael 137 neu lai o geisiadau gan ddisgyblion, byddan nhw'n cael cynnig lle yn yr ysgol.

Rhoddir blaenoriaeth i geisiadau sy'n cyrraedd erbyn y dyddiad cau, sef 4 Tachwedd 2024. Caiff ceisiadau hwyr eu hystyried gan ddefnyddio'r un meini prawf. Fodd bynnag, os oes mwy



o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgol, bydd unrhyw geisiadau hwyr yn cael eu hystyried ar ôl y rhai a dderbyniwyd erbyn y dyddiad cau. Rhoddir ystyriaeth i geisiadau a geir ar ôl y dyddiad hwn lle gellir profi rheswm eithriadol am fethu â bodloni'r dyddiad cau y tu hwnt i bob amheuaeth resymol.

Pan fydd nifer y ceisiadau yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael, caiff ceisiadau ar gyfer y 137 o leoedd sydd ar gael eu hystyried gan y Llywodraethwyr yn nhrefn y flaenoriaeth a nodir isod.

### **Meini Prawf ar gyfer Mwy o Geisiadau na Nifer y Lleoedd sydd ar gael**

Bydd yr holl geisiadau a geir erbyn y dyddiad cau sy'n mynegi dewis y rhieni i gael addysg enwadol Cristnogol cynhwysfawr yn Ysgol St. Joseph ar y ffurflen gais gyffredinol yn cael eu hystyried yn y drefn flaenoriaeth ganlynol.

Rhaid darparu tystiolaeth a gwybodaeth gan y rhieni / gwarchodwyr ar y ffurflen gais. Dylid darparu copïau o dystysgrifau Bedydd. Rhaid cynnwys Ffurflen Wybodaeth Gefnogol gyda cheisiadau. Mae'n rhaid i'r Gweinidog, ac nid y rhiant / gofalwr gofnodi tystiolaeth a gwybodaeth gefnogol gan yr Offeiriad / Gweinidog / Arweinydd Crefyddol teuluol (os yw'n berthnasol) ar y Ffurflen Gwybodaeth Gefnogol sydd gyda'r ffurflen gais. Wrth ystyried ceisiadau, bydd y plant hynny sydd wedi mynychu ers y nifer fwyaf o flynyddoedd yn cael blaenoriaeth.

#### **1. Plant sy'n derbyn gofal a Phlant a oedd yn derbyn gofal**

(Gweler gyfer y diffiniad o blant sy'n derbyn gofal)

#### **2. Plant o draddodiad Catholig a'r Eglwys yng Nghymru**

Unwaith y bydd lleoedd wedi'u dyrannu ar gyfer Plant sy'n derbyn gofal a Phlant a oedd yn derbyn gofal, bydd y lleoedd sy'n weddill yn cael eu dyrannu yn unol â'r gymhareb sylfaenol a sefydlwyd yn yr ysgol ers y dechrau: bydd hyd at 60% o ddisgyblion a dderbynnir o draddodiad Catholig a hyd at 40% o ddisgyblion o'r traddodiad Anglicanaidd. Os na cheir unrhyw geisiadau gan Blant sy'n derbyn gofal neu Blant a oedd yn derbyn gofal, caiff y 137 o leoedd eu rhannu gan ddefnyddio'r un gymhareb, sef 60% / 40%. Bydd hyn yn cyfateb i 82 o blant o'r traddodiad Catholig a 55 o blant o'r traddodiad Anglicanaidd.

#### **Catholig**

- a. Plant Catholig wedi'u Bedyddio mewn Ysgolion Cynradd Catholig yn Awdurdod Lleol Wrecsam
- b. Plant Catholig eraill sydd wedi'u Bedyddio.
- c. Plant eraill sy'n mynychu ysgolion cynradd Catholig.

Os yw'r niferoedd yn fwy na'r nifer o lefydd sydd ar gael ym mhob categori, bydd y meini prawf isod yn cael eu rhoi ar waith yn y drefn ganlynol, i benderfynu pwy a Awdurdod Lleol gael ei dderbyn;

1. Tystiolaeth ategol gan Weinidog y cysylltiad sacramentaidd gan y plentyn a gan y teulu.
2. Tystiolaeth ategol gan Weinidog y cysylltiad gweithredol yng nghymuned yr eglwys gan y plentyn a gan y teulu.
3. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn wedi mynychu ysgol fwydo Gatholig

### Yr Eglwys yng Nghymru

- a. Plant wedi'u bedyddio y mae eu teuluoedd yn mynd i Eglwys Anglicanaidd yn ardal Awdurdod Lleol Wrecsam. Noder nad yw hyn yn golygu addoli yn yr ysgol
- b. Plant Anglicanaidd eraill sydd wedi'u Bedyddio
- c. Plant eraill sy'n mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru.

Os yw'r niferoedd yn fwy na'r nifer o lefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf isod yn cael eu rhoi ar waith yn y drefn ganlynol, i benderfynu pwy a Awdurdod Lleol gael ei dderbyn:

1. Tystiolaeth gefnogol gan y Ficer / Gweinidog am weithgarwch presennol y plentyn a'r teulu yn yr eglwys y maent yn ei mynychu.
2. Tystiolaeth gefnogol gan y Ficer / Gweinidog am bresenoldeb y plentyn a'r teulu yn yr eglwys.
3. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn wedi mynychu ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru.

Pan na fydd y lleoedd Catholig neu Eglwys yng Nghymru wedi eu llenwi, bydd y lleoedd yn dod ar gael i'r enwadau eraill lle mae gormod o geisiadau.

Yn dilyn dyrannu lleoedd o dan 1 a 2, os oes unrhyw leodd ar ôl byddan nhw'n cael eu cyfuno a'u dyrannu i ddisgyblion gan ddefnyddio'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael fel y rhestrir yn nhrefn blaenoriaeth.

- 3. Plant teuluoedd sy'n chwarae rhan amlwg yng nghymunedau eglwysi lleol enwadau Cristnogol eraill ac sy'n aelodau Categori A CYTUN (Eglwysi Ynghyd yng Nghymru). Am restr llawn o'r aelodau hyn ewch i [Atodiad A](#).**

Ar gyfer llefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, mewn trefn, i benderfynu pwy a Awdurdod Lleol gael ei dderbyn;

- a. Tystiolaeth o gysylltiad gweithredol sylweddol gan y plentyn a'r teulu i gefnogi'r eglwys, megis addoli bob wythnos a chysylltiadau eraill.
- b. Tystiolaeth o rywfaint o gysylltiad gweithredol gan y plentyn a'r teulu i gefnogi'r eglwys, megis addoli bob mis neu'n llai rheolaidd na hynny.
- c. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn a'r teulu wedi bod yn ymwneud â'r eglwys gefnogol.

#### **4. Plant o gymunedau ffydd eraill.**

Ar gyfer llefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, mewn trefn, i benderfynu pwy a Awdurdod Lleol gael ei dderbyn;

- a. Tystiolaeth o weithgarwch presennol sylweddol gan y plentyn a'r teulu yn y man addoli cefnogol.
- b. Tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch cyfredol gan y plentyn a'r teulu yn y man addoli cefnogol.
- c. Tystiolaeth o ymrwymiad i gymuned ffydd gan y plentyn a'r teulu.

#### **5. Plant o deuluoedd sy'n aelodau, ond nad ydynt yn aelodau gweithredol, o gymunedau ffydd lleol.**

Ar gyfer llefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith, mewn trefn, i benderfynu pwy a Awdurdod Lleol gael ei dderbyn;

- a. Tystiolaeth o rywfaint o weithgarwch gan y plentyn a'r teulu yn y man addoli cefnogol.
- b. Nifer y blynyddoedd y mae'r plentyn a'r teulu wedi bod yn ymwneud â'r eglwys gefnogol.

#### **6. Plant nad ydyn nhw'n gallu cael eu derbyn o dan gategorïau 1 – 5 ond y mae ganddyn nhw frawd neu chwaer sy'n mynychu ar adeg derbyn.**

Ar gyfer llefydd sydd ar gael, bydd y meini prawf canlynol yn cael eu rhoi ar waith;

Y mwyaf o flynyddoedd y bydd y brawd a chwaer gyda'i gilydd, fel rhan o gymuned yr ysgol, fydd y ffactor penderfynu. Gweler am y [Diffiniad o Frawd neu Chwaer](#).

## 7. Plant nad ydynt yn medru cael eu derbyn o dan categorïau 1 – 6:

Nad ydynt wedi darparu unrhyw dystiolaeth gan eu Hoffeiriad / Gweinidog / Arweinydd Crefyddol ynglŷn â'u hymrwymiad ffydd, neu sydd wedi datgan nad oed ganddynt ymrwymiad ffydd, ond sydd wedi dweud y byddent yn hoffi lle yn Ysgol St Joseph.

### Penderfynu

Mewn achos o orfod gwneud penderfyniad, bydd y Llywodraethwyr yn derbyn yr ymgeiswyr hynny sy'n byw agosaf at yr ysgol. Os rhoddir blaenoriaeth gyfartal i ddau neu fwy o ymgeiswyr o dan unrhyw un maen prawf, yna rhaid gwneud penderfyniad, a'r plentyn sy'n byw agosaf at yr ysgol fyddai'n cael blaenoriaeth. Bydd agosrwydd yn cael ei fesur gan Banel Derbyn y Corff Llywodraethu gan ddefnyddio system fapio Gwybodaeth Ddaearyddol yr Awdurdodau Lleol. Mesurir o'r cartref at giât agosaf yr ysgol, gan ddefnyddio'r llwybr cerdded byrraf, mwyaf diogel. Lle mae pellteroedd yn gyfartal, megis fflat mewn bloc o anheddau, byddai'r fflatiau llawr gwaelod yn cael eu hystyried yn agosach na'r fflatiau ar y lloriau uwch.

### Cyfeiriad Cartref

Y 'Cyfeiriad Cartref' fydd y cyfeiriad a ddefnyddir ar gyfer gohebiaeth ac sy'n gysylltiedig â ble y telir 'Budd-dal Plant'. Mewn achosion lle ceir amheuaeth am y cyfeiriad cartref neu pan fydd plentyn yn byw rhwng dau gartref (teuluoedd wedi gwahanu) neu amgylchiadau perthnasol eraill, rhaid darparu prawf o'r cyfeiriad cartref i'r Llywodraethwyr i gadarnhau'r cyfeiriad a ddefnyddir ar y ffurflen gais. Y cyfeiriad cartref fydd y cyfeiriad sy'n cydymffurfio â'r uchod ar ddiwedd y cyfnod dyrannu a bennwyd gan yr Awdurdod Lleol. Dylai teuluoedd sydd ar fin symud tŷ ddarparu:

- a. llythyr Cyfreithiwr yn cadarnhau eich bod wedi prynu eiddo; neu
- b. gopi o'r cytundeb rhentu cyfredol, wedi ei lofnodi gan y Tenantiaid a'r Landlordiaid, yn dangos cyfeiriad yr eiddo; neu
- c. yn achos gweithwyr Lluoedd EM sy'n gwasanaethu, llythyr swyddogol yn cadarnhau dyddiad eu gwasanaeth oddi wrth yr MOD, FCO neu GCHQ

## Nodiadau

### Plant sy'n derbyn gofal

Mae 'Plentyn sy'n derbyn gofal' yn golygu un sy'n 'derbyn gofal' neu a oedd yn derbyn gofal gan Awdurdod Lleol yn unol ag Adran 22 y Ddeddf Plant . Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn dilyn rheoliadau wedi'u gosod gan Lywodraeth Cymru i sicrhau y caiff buddion y plant mwyaf diamddiffyn hyn eu diogelu. Mae'r plant hyn yn derbyn y flaenoriaeth uchaf ym meini prawf gormod o geisiadau ar gyfer yr holl ysgolion, gan gynnwys ceisiadau y tu allan i'r cyfnod derbyniadau arferol. Dylai'r rhiant corfforaethol perthnasol lofnodi ffurflenni cais ar gyfer Plant Sy'n derbyn gofal.

### Diffiniad o Rieni

Mae rhieni'n cynnwys yr holl bobl hynny sydd â chyfrifoldeb rhiant am blentyn fel y nodir yn Neddf Plant 1989. Lle bo cyfrifoldeb am blentyn yn cael ei 'rannu,' bernir mai'r person sy'n cael Budd-dal Plant yw'r person sy'n gyfrifol am lenwi ffurflenni cais, ac y bydd eu cyfeiriad yn cael ei ddefnyddio at ddibenion derbyn.

Budd-Dal Plant, neu'r person a fyddai'n gymwys i dderbyn taliad Budd-Dal Plant os bydd yn bodloni'r trothwy incwm fel y'i gosodwyd gan CthEM.

### Cyfrifoldeb rhiant

Oni nodir fel arall yn ôl gorchymyn llys:

- Mae Cyfrifoldeb Rhiant awtomatig gan famau
- Mae gan dadau hefyd gyfrifoldeb rhiant dros os yw'r tad yn briod â'r fam ar adeg geni'r plentyn. Mae hyn yn parhau ar ôl unrhyw ysgariad / gwahanu / ail-briodi hyd yn oed os nad ydynt yn byw gyda'r plentyn.
- Mae gan dadau di-briod gyfrifoldeb rhiant os yw'r fam a'r tad yn cofrestru genedigaeth y plentyn gyda'i gilydd (mae hyn yn ddiwygiad i Ddeddf Plant 1989, a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2003 ac nad yw'n ôl-weithredol)
- Gall tadau di-briod, llys-rieni, perthnasau a phobl eraill hawlio cyfrifoldeb rhiant ond nid yw ganddynt yn awtomatig. Mewn achosion o'r fath gellir dyfarnu cyfrifoldeb rhiant drwy orchymyn preswyl; cael eu penodi'n warcheidwad; cael eu henwi mewn gorchymyn amddiffyn brys (cymryd camau rhesymol i ddiogelu neu hyrwyddo lles y plentyn neu'r person ifanc yn unig); neu drwy fabwysiadu.
- Mewn achos o anghydfod rhwng rhieni, os oes cyfrifoldeb rhiant gan fwy nag un rhiant ac nad ydynt yn cytuno i wneud cais i ysgol benodol, bydd lle ysgol dros dros yn cael ei gynnig hyd nes bydd yr anghydfod yn cael ei ddatrys gan y ddau riant fel mater personol.

## Brawd neu Chwaer

Bydd y trefniadau derbyn yn sicrhau na fydd brodyr a chwiorydd yn cael eu gwahanu. Bydd brodyr a chwiorydd, p'un ai ydyn nhw'n llawn, hanner, llys, maeth neu wedi'u mabwysiadu, yn cael eu hystyried yn berthnasol pan maent yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad a'r un tŷ teuluol lle bydd yr un hŷn yn dal yn gymwys i fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fyddai'r un iau'n gymwys i'w mynychu. Ni fydd plant sy'n byw yn yr un aelwyd fel rhan o deulu estynedig, fel cefndryd a chyfnitherod, yn cael eu trin fel brodyr a chwiorydd.

## Apeliadau

Os bydd y Llywodraethwyr yn anfon llythyr yn dweud nad ydyn nhw'n gallu cynnig lle, gall rhiant apelio. Rhaid gwneud yr apêl hwn yn ysgrifenedig gan riant / gwarcheidwad i Glerc Llywodraethwyr yr ysgol a rhaid iddo gyrraedd erbyn y dyddiad cau a nodir yn y llythyr. Yna, bydd Panel Apelio Annibynnol, a drefnir ar ran Esgobaeth Wrecsam ac Esgobaeth Llanelwy, yn gwrandao ar yr Apêl.

## Grwpiau Blwyddyn Eraill

Mae derbyniadau yn amodol ar argaeledd lleoedd ac i'r un meini prawf derbyn.

## Llywodraethwyr yn tynnu cynigion lleoedd yn ôl

Pe bai'r Llywodraethwyr yn dod o hyd i dystiolaeth o gais twyllodrus neu fwriadol gamarweiniol gan riant, a fyddai'n gwadu rhiant â mwy o hawl i le, dylid hysbysu rhieni y gellid tynnu'r cynnig yn ôl. Lle caiff lle ei dynnu'n ôl ar sail gwybodaeth gamarweiniol, ystyrir y cais o'r newydd, a chynigir hawl i apelio os gwrthodir y lle. Gwneir y datganiad hwn yn unol â'r ['Cod Derbyn i Ysgolion, Dogfen God Statudol Rhif 005/2013, tudalen 26 paragraffau 3.40 a 3.41.](#)

## Rhestrau Aros

### Trosglwyddo i Ysgol Uwchradd o Ysgol Gynradd

Gall rhieni sy'n aflwyddiannus yn eu cais roi enw eu plentyn ar restr aros. Cedwir y rhestr aros tan 30 Medi ym mlwyddyn y cais. Os daw unrhyw leoedd ar gael cyn i'r tymor ddechrau ym mis Medi, bydd y Panel Derbyniadau yn ystyried yr enwau hynny ar y rhestr aros. Os bydd mwy o enwau ar y rhestr aros nag o leoedd sydd ar gael, bydd y Llywodraethwyr yn defnyddio'r meini prawf mwy o geisiadau na nifer y lleoedd sydd ar gael fel y manylir yn y polisi hwn. Unwaith y bydd y dyddiad hwn wedi bod, caiff y rhestr aros ei gwaredu.

### Trosglwyddiadau Canol Cyfnod

